# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD LLUN, 2AIL MAWRTH, 2026**

***NODER***

**BYDD Y CYFARFOD YN CAEL EI WEDDARLLEDU**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 20 Chwefror 2026)

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## Aelodaeth (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths |
| Elin Hywel | Gareth Tudor Jones |
| Olaf Cai Larsen | Edgar Wyn Owen |
| Gareth A Roberts | Huw Rowlands |
| Berwyn Parry Jones | Sedd wag |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Louise Hughes | Anne Lloyd-Jones |
| John Pughe Roberts | Gruffydd Williams |

## Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## TREFN SIARAD AR GEISIADAU CYNLLUNIO YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoddi'r hawl i 3ydd parti siarad ar geisiadau cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r daflen hon yn amlinellu'r trefniadau gweithredol arferol ar gyfer siarad yn y pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio ar y cais cynllunio yn cynnwys argymhelliad. | |
| 2. | Os oes cais wedi ei dderbyn gan 3ydd parti i siarad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y siaradwr ymlaen | |
| 3. | Gwrthwynebydd, neu gynrychiolydd o'r gwrthwynebwyr yn cael annerch y pwyllgor | 3 munud |
| 4. | Ymgeisydd, gynrychiolydd yr ymgeisydd(wyr) neu Asiant yn cael annerch y pwyllgor | 3 munud |
| 5. | Aelod(au) Lleol yn cael annerch y pwyllgor | 10 munud |
| 6. | Cadeirydd y pwyllgor yn gofyn am gynigydd ac eilydd i'r cais cynllunio | |
| 7. | Y pwyllgor yn trafod y cais cynllunio. | |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ac i nodi materion protocol.

## 3. MATERION BRYS

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ac i nodi materion protocol.

## 4. COFNODION 6 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 2il o Chwefror 2026 fel rhai cywir

## 5. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd.

### 5.1 CAIS RHIF C25/0824/37/LL TIR GYFERBYN A LLYS YR EIFL, TREFOR, LL54 5BJ 11 - 50

Cais llawn i adeiladu 15 tŷ fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys creu mynedfa gerbydol newydd a ffordd stad, tirlunio a chreu ardal draenio dwr wyneb cynaliadwy.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Jina Gwyrfai

Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol

### 5.2 CAIS RHIF C25/0651/23/LL TIR ODDI AR FFORDD GLANFFYNNON, LLANRUG, LL55 4PT 51 - 91

Cais cynllunio llawn ar gyfer 17 annedd fforddiadwy, ynghyd a chreu mynediad newydd i gerbydau a ffordd fynedfa fewnol, cau 2 bwynt mynediad amaethyddol presennol, creu mynediad newydd i wasanaethu is-orsaf newydd, gwaith ymestyn Ffordd Glanffynnon ynghyd a gwaith tirlunio, draenio a gwaith arall cysylltiedig.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Beca Brown

Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol

**5.3. CAIS RHIF C25/0914/44/LL LLYN BACH, PORTHMADOG, LL49 9DF** 92 - 107

Cynnig i dynnu'r wal derfyn bresennol er mwyn darparu mynediad gwell i Gob Crwn, a chreu llwybr troed newydd ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Nia Jeffreys

Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol

**5.4. CAIS RHIF C26/0005/46/DA TYDDYN DU, DINAS, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 8SU** 108 - 120

Diwygiad ansylweddol i ddyluniad hawl cynllunio C21/0411/46/LL

AELOD LLEOL: Cynghorydd Gareth Tudor Jones

Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 2il o Chwefror 2026**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elwyn Edwards
Is-gadeirydd: Cynghorydd Huw Rowlands

**Y Cynghorwyr:** Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts a Gruffydd Williams

**Eraill a wahoddwyd - Aelod Lleol**: Y Cynghorydd Dylan Fernley

**Swyddogion:** Sïon Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau - Swyddog Monitro), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwawr Hughes (Rheolwr Cynllunio), Medi Emlyn Davies (Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu), Dafydd Jones (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Cai Larsen oedd wedi methu ag ymuno â'r cyfarfod oherwydd problemau technegol, ond oedd hefyd wedi datgan buddiant gan ei fod yn Aelod o Fwrdd Adra

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Datganodd yr aelod canlynol ei fod yn aelod lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd Dylan Fernley (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 (C25/0686/11/LL) ar y rhaglen

**3. MATERION BRYS**

Fel mater o drefn, adroddwyd, gyda'r Cadeirydd yn ymuno yn rhithiol, mai'r Swyddog Monitro fyddai'n cyhoeddi canlyniad pleidleisiau'r ceisiadau.

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12fed o Ionawr 2026 fel rhai cywir

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i'w datblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**5.1 CAIS RHIF C25/0686/11/LL**
**Cae Incline Fields, Bangor, LL57 4HP**

Cynnig i godi hyd at 48 o Anheddau a Datblygiad Cysylltiedig

Tynnwyd sylw at y Ffurflen Sylwadau Hwyr

a) Amlygodd Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu mai cais cynllunio llawn ydoedd ar gyfer codi unedau preswyl ynghyd â gwaith cysylltiedig ar gae amaethyddol ar gyrion Dinas Bangor ar safle sydd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Ategwyd bod y safle wedi ei ddynodi yn benodol ar gyfer codi tai a'i fod tu mewn i'r ffin datblygu cyfredol.

Adroddwyd bod prif elfennau'r bwriad yn cynnig codi 48 o unedau preswyl, darparu mynedfa a ffordd ystâd safonol gysylltiedig, creu llecynnau parcio, mannau chwarae, gwaith tirlunio a darparu system ddraenio bwrpasol. Bydd y ddarpariaeth yn cynnwys 8 x fflat 1 llofft, 6 x fflat 2 llofft, 5 x byngalo 2 llofft, 1 x byngalo (byw a chymorth) 3 llofft, 13 x tŷ deulawr 2 llofft,12 x tŷ deulawr 3 llofft, 2 x tŷ deulawr 4 llofft ac 1 x tŷ deulawr 5 llofft; yn ddatblygiad 100% o dai fforddiadwy gan Gymdeithas Dai Cymdeithasol gyda bwriad o ddarparu cymysgedd o wahanol ddaliadaeth (e.e. rhent cymdeithasol a rhent fforddiadwy canolradd) i ddiwallu'r angen sydd wedi ei adnabod yn y Ddinas ac yng Ngwynedd.

Eglurwyd bod y safle gyferbyn ag Amlosgfa Bangor ac yn cael ei ystyried yn safle sensitif oherwydd bod Heneb Gofrestredig Rheilffordd Chwarel Penrhyn yn ffinio terfyn dwyreiniol y safle, dynodiad Safle Treftadaeth y Byd tu hwnt i hwnnw yn cynnwys tiroedd Parc Cofrestredig gradd II seren o amgylch Castell Penrhyn, ac adeilad rhestredig gradd 11 Bwthyn Incline sydd ar y terfyn dwyreiniol.

Nodwyd bod cais blaenorol wedi ei gyflwyno yn 2020 ar gyfer datblygiad 66 tŷ ar y safle, ond bod y cais wedi ei dynnu yn ôl yn sgil gwrthwynebiad gan CADW am yr effaith ar y dynodiadau treftadaeth. O'r dogfennau amrywiol a gyflwynwyd gyda'r cais yma, ymddengys bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda chyflwyniad datblygiad mwy ystyriol o'i leoliad sensitif.

Yn unol â threfniadau cynllun dirprwyo Gwasanaeth Cynllunio, cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor gan ei fod yn ddatblygiad dros 5 tŷ ac yn ddatblygiad a ddiffinnir fel "datblygiad mawr" oherwydd nifer yr unedau a gynigir. Yn unol â'r drefn briodol, derbyniwyd Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio fel rhan o'r cais a'r datblygwr wedi hysbysebu'r bwriad i'r cyhoedd ac ymgynghorwr statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol.

Wedi ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, ystyriwyd fod y bwriad yn dderbyniol ar sail:

- Bod polisïau mabwysiedig yr Awdurdod yn datgan y bydd Cynghorau'n ceisio sicrhau lefel briodol o dai fforddiadwy yn ardal y CDLl. Y bwriad yn paratoi datblygiad fyddai'n cynnwys 100% o unedau fforddiadwy gyda'r Uned Strategol Tai wedi dangos tystiolaeth o'r angen a chadarnhau fod y cynllun yn cyfarch angen yr ardal.
- Bod y safle wedi ei ddynodi yn benodol ar gyfer codi tai, ac er bod y nifer unedau yn llai na'r 72 dwysedd uned a awgrymwyd yn y CDLl, ystyriwyd bod y rhesymeg dros warchod buddiannau'r dynodiadau treftadaeth sensitif yn cyfiawnhau dwysedd llai yn yr achos yma.
- Bod y materion a godwyd gan yr Uned Priffyrdd ynglŷn â pharcio wedi eu datrys a bod modd gosod amod bod y gwaith yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Gosodiad 'Masterplan' diweddaraf

- Bod modd cyflawni gwaith i gynnwys croesfan a llwybr diogel i gerddwyr o'r datblygiad tua chanol y ddinas drwy gytundeb gyda'r Uned Priffyrdd o dan adran 278; fydd yn gysylltiedig hefyd gyda'r gwaith o ffurfio mynedfa gerbydol addas i'r datblygiad. Y datblygwr wedi cytuno i hyn a gellid gosod amod yn cytuno'r gwelliannau a darparu'r groesfan cyn meddiannu'r tai.
- Ni fydd Cytundeb 106 ar gyfer cael cyfraniad ariannol i welliannau ffyrdd bellach yn angenrheidiol.
- Bod sylwadau'r Uned Polisi wedi amlygu bod angen 215 m2 o lecyn chwarae yn yr ardal i gyfarch angen yr ardal. Nodwyd bod y llecyn sydd wedi ei leoli ger Bwthyn Incline yn mesur oddeutu 185m2 a'r llall sydd ar derfyn deheuol y safle yn 130m2 - gyda'i gilydd yn 315m2 sydd 100m2 yn fwy na'r ddarpariaeth angenrheidiol.

Ystyriwyd bod y cynnig yn dderbyniol ag yn bodloni gofynion polisiau lleol a chenedlaethol. O ganlyniad, roedd y Swyddogion yn argymhell caniatau'r cais yn ddarostynedig i osod amodau perthnasol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant ar ran yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod y cynllun yn helpu tuag at ddarparu cartrefi fforddiadwy mewn ymateb i'r argyfwng tai yng Ngwynedd
- Bod y safle wedi ei ddynodi ar gyfer tai - byddai polisi yn disgwyl i 20% o'r datblygiad fod yn gartrefi fforddiadwy, ond y cynllun yma yn cynnig 100% sydd yn diwallu'r angen sydd wedi ei nodi am y math yma o gartrefi ym Mangor
- Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Uned Strategol Tai am y nifer a'r math sydd ei angen bod y cynllun, o 48 uned, yn cynnig cymysgedd da o gartrefi fydd yn cael eu cynnig fel tai rhent cymdeithasol a rhent fforddiadwy canolradd
- Bod y nifer unedau yn llai na'r 72 dwysedd uned a awgrymwyd yn y CDLl - hyn yn amlygu parch tuag at sensitifrwydd y safle
- Bod y dyluniad wedi ei wneud o gwmpas Heneb Gofrestredig Rheilffordd, Safle Treftadaeth y Byd ac adeilad rhestredig gradd 11 Bwthyn Incline; bod ardal wyrdd o ansawdd uchel yn annatod i'r cynllun ac amwynder trigolion
- Y dyluniad wedi arwain at drafodaethau a chydweithio gyda CADW sydd, ynghyd a swyddogion y Cyngor, yn gefnogol i'r cynllun
- Bod llefydd parcio digonol yn cael eu cynnig. Y safle gerllaw rhwydwaith lleol dda a chapasiti digonol i'r llwyth ychwanegol. Cysylltiad yr A5 hefyd yn hwylus iawn
- Bod gwelliannau i safleoedd bysus a llwybrau cerdded wedi eu cynnig
- Yn ystyriol wrth sicrhau bod coed presennol o amgylch y safle yn cael eu cadw – bod y coed o werth ecolegol a bioamrywiaeth ac yn cael eu gwerthfawrogi . Y cynllun yn cyfrannu at y gwerth yma gyda thirlunio gofalus o'i gwmpas
- Systemau dwr wyneb a budr yn cydymffurfio gyda gofynion Dwr Cymru sydd yn fodlon gyda'r cynnig a'r cynllun
- Bod adroddiadau a chanlyniadau positif i sŵn, ansawdd aer a materion archaeoleg wedi eu cyflwyno ac yn dderbyniol
- Bod y cais yn un o ansawdd uchel, yn cynorthwyo i ddiwallu'r angen sylweddol am dai yn y Ddinas
- Defnydd o safle a ddyrannwyd yn cael ei ymdrin mewn modd sensitif - yn parchu'r lleoliad
- Ymgynghorwyr a swyddogion y Cyngor yn fodlon gyda'r cynnig
- Yn cydymffurfio gyda pholisïau cenedlaethol a lleol

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol;

- Ei fod yn gefnogol i'r cais

- Byddai'r datblygiad yn cyfrannu at leihau'r rhestr aros am dai cymdeithasol yn y Ddinas
- Bod y dyluniad o safon dda
- Byddai'n hoffi gweld defnydd Polisi Tai Lleol
- Pryder am y cyfyngiad cyflymder - bod cyfyngder cyflymder ger yr amlosgfa yn 40mya ond yn lleihau i 30mya wrth fynedfa arfaethedig y bwriad - hanfodol bod cyfyngiad 30mya yn cael ei ymestyn i fyny at fynedfa'r amlosgfa fel bod gyrwyr yn arafu wrth ddod i lawr yr allt
- Yn edrych ymlaen at y datblygiad

d) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Croesawu bod y datblygiad yn 100% fforddiadwy
- Yn cytuno gyda'r Aelod Lleol bod angen gostwng y cyfyngiad cyflymder
- Bod y datblygiad yn cwrdd â'r angen
- Croesawu gweld byngalos yn rhan o'r cymysgedd

` Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â darparu mannau gwefru ceir trydan o fewn y datblygiad fel cyfraniad at gyrraedd targed net sero'r Cyngor, nodwyd nad oedd pwyntiau gwefru wedi eu hymgorffori yn y cais, ond byddai modd i ddarpar breswylwyr wneud cais. Ni fyddai modd cynnwys hyn fel amod. Ategwyd bod addasiadau i drafnidiaeth gyhoeddus ac i groesfan wedi eu cymeradwyo - rhain yn gwneud y datblygiad yn un cynaliadwy

Mewn ymateb i sylw bod y datblygwr yn talu am asesiad ieithyddol fydd o bosib yn ymddangos yn bositif o'u plaid, ac i bryder bod 'diffyg ystyriaeth o'r effaith cronnus anuniongyrchol', a pham felly nad yw'r Cyngor yn comisiynu asesiad ieithyddol sydd ddim ynghlwm a'r datblygwr, pwysleisiwyd nad oedd y gwasanaeth yn derbyn bod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno gan ddatblygwyr yn fanwl gywir, a bod pob elfen o unrhyw gais yn cael ei herio. Ategwyd bod materion ieithyddol yn cael eu hystyried gan arbenigwyr Uned Iaith y Cyngor ac yn ychwanegol, o ran effaith gronnol, nid oedd datblygiad tebyg i'r datblygiad yma wedi ei gynnig ym Mangor ers sawl blwyddyn. Nodwyd bod y cynllun yma yn cyfarch angen tra gwahanol i'r ceisiadau blaenorol (megis fflatiau ar y Stryd Fawr), sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn y gorffennol. Y cynllun yn fodd o ddiwallu anghenion pobl Gwynedd, a'r tebygolrwydd yw y byddai canran uchel o'r tenantiaid yn medru'r Gymraeg.

Mewn ymateb i sylw bod y deunyddiau allanol arfaethedig i gynnwys llechi Cymreig ar gyfer y toeau, ond bod yr amod yn nodi 'llechi' yn unig, nodwyd bod yr amod cynllunio yn cyfeirio at liw, edrychiad a thebygolrwydd ac nad oedd modd cyfyngu'r llechen i un Gymreig. Er bod y Cyngor wedi codi hyn drwy apêl yn y gorffennol, bod yr apêl wedi methu - bod rheswm cyfreithiol dros osod yr amod fel y mae.

Derbyniwyd sylw nad oedd Cyngor Dinas Bangor wedi cyflwyno sylwadau ar y cais a bod hyn bellach yn fater sydd yn amlygu ei hun yn rheolaidd. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol, nad oedd gan yr Awdurdod yr hawl i fynd ar ofyn ymateb.

Yng nghyd-destun amddiffyn a diogelu llwybrau cyhoeddus i'r dyfodol a'r angen am fanylion pellach, nodwyd nad oedd pryder ynglŷn â llwybrau yn cael eu hatal yma, ond byddai trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng yr asiant a swyddog llwybrau i gael datrysiadau.

Mewn ymateb i gais gan y cynigydd i ystyried cyfyngiad cyflymder fel amod, nodwyd, er yn cydnabod y pryder, bod y cynllun wedi cael ei asesu gan yr Uned Trafnidiaeth oedd heb grybwyll yr angen  i ostwng lefel cyflymder yn eu hasesiad. O ganlyniad nid oedd tystiolaeth i weithredu ac felly dim modd amodi. Anogwyd yr Aelod Lleol i gynnal trafodaeth bellach gyda'r Uned Trafnidiaeth.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu gydag amodau**

1. **Amser 5 mlynedd**
2. **Yn unol â'r cynlluniau**
3. **Rhaid cyflwyno a chytuno ar raglen ddarparu tai fforddiadwy**
4. **Cyfyngu'r defnydd i anheddau preswyl dosbarth defnydd C3 yn unig**
5. **Tynnu'r Hawliau Datblygu a Ganiateir**
6. **Llechi**
7. **Cytuno gorffeniad**
8. **Amodau Tirlunio**
9. **Gweithredu amcanion Datganiad Seilwaith Gwyrdd**
10. **Cytuno manylion cyfarpar chwarae**
11. **Amod Dŵr Cymru**
12. **Amodau Priffyrdd**
13. **Amodau Gwarchod y Cyhoedd i gynnwys oriau gweithio**
14. **Amodau Cadw**
15. **Amod Archeolegol**
16. **Rhaid rhoi enw Cymraeg i'r stad/tai**

Dechreuodd y cyfarfod am 13.00 a daeth i ben am 13:35

**CADEIRYDD**

**Rhif: 1**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C25/0824/37/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **03/12/2025** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Trefor a Llanaelhaearn** |
| **Ward:** | **Yr Eifl** |
| **Bwriad:** | **Cais llawn i adeiladu 15 tŷ fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys creu mynedfa gerbydol newydd a ffordd stad, tirlunio a chreu ardal draenio dwr wyneb cynaliadwy** |
| **Lleoliad:** | **Tir Cyfagos Llys yr Eifl, Trefor, LL54 5BJ** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **Caniatáu yn ddarostyngedig i gwblhau cytundeb o dan Adran 106 neu gytundeb unochrog ar gyfer cyfraniad llecynnau agored.** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Dyma gais llawn ar gyfer codi 15 tŷ fforddiadwy ar safle eithrio ym mhentref Trefor gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys creu mynedfa gerbydol, ffordd ystâd, tirlunio a chreu ardal ddraenio dŵr wyneb cynaliadwy.

1.2 Er eglurder, dyma fanylion pellach ynglŷn â'r cais fel y cyflwynwyd:

- Creu mynedfa gerbydol gyda ffordd fynediad yn ymestyn i mewn i'r safle gyda safleoedd parcio i flaen a chefn y tai. Yn ogystal, llwybr troed gyda agoriad cysylltiol uniongyrchol i gerddwyr o'r ystâd i'r palmant presennol ar hyd y ffordd gyhoeddus gyfochrog.
- Codi 15 tŷ fyddai'n gymysgedd o dai deulawr pâr, tai unllawr ac un tŷ deulawr ar ben ei hun gyda gerddi a/neu safleoedd parcio i'r blaen a gerddi cefn gyda rhai gerddi ochr.
- Creu ardal amwynder gwyrdd canolog fyddai hefyd yn cynnwys ardal ddraenio gynaliadwy.

1.3 O ran manylion y tai, sydd i gyd yn dai fforddiadwy, nodir y canlynol:

- 4 byngalo 2 ystafell wely yn cynnwys arwynebedd llawr mewnol o 58m²
- 4 tŷ deulawr 2 ystafell wely yn cynnwys arwynebedd llawr mewnol o 83m²
- 5 tŷ deulawr 3 ystafell wely yn cynnwys arwynebedd llawr mewnol o 93m²
- 1 tŷ deulawr 4 ystafell wely yn cynnwys arwynebedd llawr mewnol o 114m²
- 1 tŷ 6 ystafell wely yn cynnwys arwynebedd llawr mewnol o 208m²
- Maent i'w gorffen yn allanol gyda chymysgedd o rendr, cladin carreg a sment ar y waliau a tho o lechen naturiol.

1.4 Yn ôl gwybodaeth a dderbyniwyd gyda'r cais, mae'r cynllun yn bwriadu darparu daliadaeth niwtral sy'n golygu y byddai'r ymgeisydd yn darparu 100% o unedau fforddiadwy ond gyda'r ddaliadaeth heb ei nodi yn benodol. Bwriad Grŵp Cynefin fel perchennog fyddai darparu cymysgedd o dai cwbl fforddiadwy fyddai'n gymysgedd o ddeiliadaeth megis tai rhent cymdeithasol, tai rhent fforddiadwy canolradd, rhan berchnogaeth ayyb yn unol â'r galw fel caiff ei amlygu byddai wedyn yn caniatáu hyblygrwydd yn ôl amgylchiadau'r anghenion os byddai hynny yn newid megis deiliad yn symud o dŷ rhent i dŷ rhan berchnogaeth er enghraifft. Honnir y byddai hyn yn rhesymol ac addas trwy sicrhau fod gan Grŵp Cynefin hyblygrwydd ar gyfer yr union gymysgedd o ddaliadaeth o fewn y cynllun wrth allu ymateb i anghenion penodol y gymuned fel y byddai'n newid er mwyn sicrhau fforddiadwyedd hir dymor y tai.

1.5 Mae safle'r datblygiad arfaethedig yn bresennol yn dir amaethyddol agored gyda ffiniau oddi amgylch yn bennaf yn wrychoedd naturiol. Mae tai preswyl o fewn ystâd fechan cymharol newydd gyfochrog a'r safle i gyfeiriad y gorllewin gyda ffordd gyhoeddus dosbarth 3 yn rhedeg gyda ffin ogleddol y safle a thai preswyl wedi eu gwasgaru ochr arall i'r ffordd i gyfeiriad y gogledd a'r gogledd orllewin. Mae edrychiadau tai'r ardal yn gymysgedd o ran dyluniad, ffurf a gorffeniadau amrywiol.

1.6 Mae'r safle cyfan du allan i ffin ddatblygu gyfredol pentref Trefor ac felly yng nghefn gwlad agored. Mae rhan o ffin orllewinol y safle arfaethedig yn cyffwrdd a'r ffin datblygu bresennol fel y amlygir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae ffordd gyhoeddus dosbarth 3 wedi ei leoli cyfochrog â ffin ogleddol a'r hyn fyddai blaen y safle gyda mynediad amaethyddol presennol i mewn i'r caeau. Mae'r safle yn gyfan gwbl oddi mewn i ddynodiadau AHNE Llŷn a Thirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli.

1.7 Fel rhan o'r cais, cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol
- Asesiad Effaith Ieithyddol

- Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol
- Strategaeth Draenio
- Datganiad Seilwaith Gwyrdd
- Cynllun Rheolaeth Trafnidiaeth Adeiladu
- Arolwg Anghenion Tai
- Datganiad Anghenion Tai a Thai Fforddiadwy
- Gwerthusiad Gweledol y Tirlun
- Adroddiad Goleuo
- Datganiad Cynllunio
- Datganiad Trafnidiaeth
- Asesiad Coed
- Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (Adroddiad PAC)
- Cynllun Rheoli Tirlun ac Ecoleg
- Asesiad Effaith Treftadaeth
- Gwerthusiad Archeolegol
- Dyluniad Prosiect ar gyfer Gwerthusiad Archeolegol

1.8 Yn unol ag anghenion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) mae’r datblygiad sy’n destun y cais yma yn cael ei diffinio fel “datblygiad mawr” oherwydd nifer yr unedau a gynhigir. Yn unol â’r drefn briodol fe dderbyniwyd Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio fel rhan o’r cais. Mae’r adroddiad yn dangos fod y datblygwr wedi hysbysebu’r bwriad i’r cyhoedd ac ymgynghorwyr statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Mae’r adroddiad yn cynnwys copïau o’r ymatebion a dderbyniwyd ar yr adeg.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 1: Yr Iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig
ISA 1: Darpariaeth isadeiledd
PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd
TRA 2: Safonau parcio
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
PS 5: Datblygu cynaliadwy
PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt
PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
PCYFF 2: Meini prawf Datblygu
PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
PS 16: Darpariaeth Tai
PS 17: Strategaeth aneddleoedd
TAI 4: Tai mewn pentrefi lleol, gwledig ac arfordirol

TAI 8: Cymysgedd briodol o dai
PS 18: Tai fforddiadwy
TAI 16: Safleoedd eithrio
PS 19: Gwarchod a ble'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol
AMG 1: Cynlluniau rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol eithriadol
AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth leol
PS 20: Diogelu a ble'n briodol gwella asedau treftadaeth
AT 1: Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig
AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA):

CCA: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy
CCA: Cymysgedd tai
CCA: Tai fforddiadwy
CCA: Cymeriad y dirwedd
CCA: Ymrwymiadau cynllunio
CCA: Adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 – Chwefror 2024)

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 2: Cynllunio a thai fforddiadwy
NCT 5: Cynllunio a chadwraeth natur
NCT 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy
NCT 12: Dylunio
NCT 18: Trafnidiaeth
NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg
NCT 24: Yr amgylchedd hanesyddol

## 3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

3.1 Nid yw'n ymddangos fod unrhyw hanes cynllunio yn ymwneud a'r tir penodol yma.

## 4. Ymgynghoriadau:

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Mae Cyngor Cymuned Trefor a Llanaelhaearn yn dymuno datgan yn unfrydol nad oes ganddo wrthwynebiad i'r cais hwn per se, ond fod hynny yn amodol. Dyma'r ddau amod ynghyd ag awgrym cryf ar y diwedd ar sut i fwrw ymlaen â'r cynllun.<br><br>1. Rydym yn deall fod Comisiynydd y Gymraeg wedi derbyn barn gyfreithiol sy'n datgan yn ddiamwys na fyddai'n anghyfreithlon gwneud 'medru'r Gymraeg' yn amod gosod tai cymdeithasol. Deallwn yn ogystal fod y Comisiynydd wedi gofyn i Gyngor Gwynedd, ynghyd â'r Cymdeithasau Tai sy'n weithredol o fewn y sir, ystyried y mater hollbwysig hwn o ddifri a dod i benderfyniad arno. Rydym ninnau fel Cyngor Cymuned wedi anfon llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd, Dafydd Gibbard, ynghyd â chopi at Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys, yn holi beth, erbyn hyn, yw'r sefyllfa. A fu trafod? |

2. Yn ogystal, dymunwn anfon cais taer atoch, mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig hwn, eich bod yn gweithredu Polisi Gosodiadau Lleol yn hytrach na'r Polisi Gosod Tai Cyffredin. Caniatewch i mi eich atgoffa o'r adrannau mwyaf perthnasol o'r ddogfen Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd 2019' (tudalen 28)

Polisïau gosod lleol

'4.28 : Mae Adran 167 (2E) o Ddeddf 1996 yn galluogi awdurdodau tai i ddyrannu llety penodol i bobl o ddisgrifiad penodol, pe baent yn disgyn o fewn i gategorïau blaenoriaeth resymol ai peidio. Mae polisi o'r fath yn cael ei adnabod fel 'polisi gosodiadau lleol'.

4.29 : Mae Polisïau Gosod Lleol yn gweithio drwy gynnwys meini prawf ychwanegol at y rhai hynny yn y prif bolisi gosod fydd yn cael eu hystyried wrth osod eiddo mewn stad neu gymuned arbennig. Defnyddir Polisïau Gosod Lleol i gyflawni amrywiaeth eang o amcanion rheoli tai ac amcanion polisïau tai eraill, ac y maent yn cael eu datblygu fel arfer lle bo dymuniad i newid cydbwysedd cymuned neu i sicrhau cymuned gytbwys yn y cyfnod pan fo datblygiad newydd yn cael ei osod.

4.30 : Bydd pob un o'r partneriaid cymdeithasau tai yn gallu cyflwyno Polisïau Gosod Lleol mewn ardaloedd o'u stoc ac fe gymeradwyir y polisïau hynny gan Fwrdd y Gymdeithas Dai perthnasol.

4.31 : Bydd pob Polisi Gosod Lleol a gyflwynir yn cael ei gyhoeddi. Bydd yn cael ei fonitro ar gyfer effeithiolrwydd ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel y gall gael ei ddiwygio neu ei ddiddymu pan nad yn berthnasol neu nad oes ei angen.'

I gloi. Mae'n deg dweud fod Cyngor Gwynedd yn falch o gael cyhoeddi'n aml, os nad ymffrostio ar brydiau, ei fod yn Gyngor blaengar sy'n arwain gweddill Cymru ar fater yr iaith Gymraeg. Mae'n ddyletswydd arnom gydnabod fod llawer o wir yn hynny a diolch am yr ymdrechion. Dyma, felly, yn yr achos arbennig hwn, gyfle euraid i fod yn wirioneddol flaengar ac arloesol trwy fod yr awdurdod cynllunio cyntaf yng Nghymru i fentro gosod amod iaith ar stad newydd o dai cymdeithasol, a hynny yng nghalon y fro Gymraeg. Byddai'n glod ac yn gynsail i'r Cyngor ei hun ac yn arweiniad goleuedig a hir ddisgwyliedig i weddill Cymru. Bellach, gyfeillion, mae'r hawl cyfreithlon gennych, a hwnnw wedi ei gadarnhau gan arbenigwr. Gall hyn roi cychwyn pendant a chadarn i warchod enaid ein cenedl a'r ychydig fröydd bregus sydd weddill. Taer erfyniwn am eich parodrwydd i wneud hynny a dangos i'n pobl fod cenhadaeth Cyngor Gwynedd dros ein hiaith yn ddilys, diffuant a digyfaddawd.

A'r ffordd ymlaen? Teimlwn, dan yr amgylchiadau, mai'r cam addas i'w gymryd, ar hyn o bryd, ydi gohirio penderfyniad ar yr achos hwn hyd nes y ceir canlyniad pendant i'r drafodaeth ynglŷn â'r hyn a gyflwynwyd gan y Comisiynydd Iaith i Gyngor Gwynedd a'r Cymdeithasau Tai. Mae'n gyfle rhy bwysig i'w golli ac mae'n hwyr bryd i ni gamu ymlaen yn llawn hyder. Mae'n gyfle i wneud 'cadernid Gwynedd' yn gadernid gwirioneddol.

Mae Cyngor Cymuned Trefor a Llanaelhaearn yn unfryd unfarn na fydd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cais os y rhoi'r sylw a'r gefnogaeth briodol i'r amodau a nodir.

Uned Drafnidiaeth:

Effaith ar y Rhwydwaith Ffyrdd
Mae'r ffordd sydd yn cysylltu â'r datblygiad arfaethedig yn gysylltiad da i'r A499. Cyfyngiad cyflymder y lôn yw 20mya ac nid oes cofnod o unrhyw ddamweiniau dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn croesawu'r cynlluniau gan yr ymgeisydd i ymestyn y cyfyngiad cyflymder 20mya yn bellach i'r dwyrain, gosod marciau ffordd mynediad a thwmpathau cyflymder. Cyflwynwyd dadansoddiad TRICS gan yr ymgeisydd sydd yn cadarnhau byddai llif traffig yn isel ac ni fydd yn debygol o greu baich ychwanegol ar y rhwydwaith ffordd.

Mynediad i'r safle
Mae'r llain welededd yn cyfarch gofynion TAN 18 i bob cyfeiriad. Mae llystyfiant i'w weld ar y cynlluniau a all rhwystro gwelededd angenrheidiol, felly bydd angen sicrhau bod y mynediad yn cael ei adeiladu mewn ffordd sy'n cadw'r llain welededd yn glir o unrhyw rwystr, gan gynnwys llystyfiant.

Parcio
Mae'r nifer o lecynnau parcio i bob uned yn unol â Chanllawiau Parcio Cymru 2014.

Cysylltiadau Cerdded â Chanol y Pentref
Mae'r cynlluniau yn cynnwys darparu llwybr cerdded 2m o led oddi fewn y datblygiad, cyflwyno man croesi heb reolaeth ynghyd â llwybr 2m o led i gyfeiriad y gorllewin i gysylltu â'r rhwydwaith cerdded presennol.

Trafnidiaeth Gyhoeddus
Mae safle bws wedi'i lleoli'n agos iawn i'r datblygiad sydd yn cynnig gwasanaeth rheolaidd i wahanol ardaloedd arwyddocaol.

Casgliad
O ganlyniad, credwn na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar y rhwydwaith ffyrdd. Yn ychwanegol, fel rhan o'r cytundeb newidiadau i'r lôn bydd angen cytuno gyda'r Awdurdod Priffyrdd rhai agweddau o'r datblygiad. Hynny yw, yr union leoliad ar gyfer y groesfan arfaethedig ynghyd â sicrhau fod y ddarpariaeth golau stryd ar y briffordd yn cyd-fynd a chanllawiau cyfyngiadau cyflymder cenedlaethol. Felly, hoffwn gadarnhau nad oes gan yr uned drafnidiaeth unrhyw reswm i wrthod y cais cynllunio. Gofynnaf i unrhyw ganiatâd a roddir cynnwys amodau safonol.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Mae gennym bryderon ynghylch y cais fel y'i cyflwynwyd gan nad oes digon o wybodaeth wedi cael ei darparu i ategu'r cynnig. Er mwyn goresgyn y pryderon hyn, dylech geisio rhagor o wybodaeth gan yr ymgeisydd ynghylch y dirwedd. Os na ddarperir yr wybodaeth hon, byddwn yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn.

Rydym hefyd yn cynghori, yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd hyd yma, y dylid cynnwys amod sy'n nodi'r cynlluniau

| | |
|---|---|
| | a dogfennau cymeradwy ar yr hysbysiad o benderfyniad. Heb gynnwys y ddogfen hon, byddwn yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn.<br><br>Sylw<br>Mewn ymateb i'r pryderon a amlygwyd, mae'r ymgeisydd wedi comisiynu cwmni arbenigol i lunio Arfarniad Tirwedd a Gweledol diwygiedig fyddai'n ymateb i'r materion penodol a godwyd yn sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni dderbyniwyd y ddogfen ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ond credir y bydd modd adrodd arno ac unrhyw ymateb pellach a dderbynnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru gerbron y pwyllgor. |
| Dŵr Cymru: | Dŵr Budr – mae safle'r datblygiad arfaethedig o fewn ardal system garthffosiaeth gyhoeddus sydd yn llifo i waith trin gogledd Trefor. Ystyriwyd effaith y llif ychwanegol o'r datblygiad arfaethedig gan ddod i'r casgliad ei bod yn bosibl i'w dderbyn o fewn y system garthffosiaeth gyhoeddus.<br><br>Cyflenwad Dŵr – mae capasiti digonol ar gael o fewn y system cyflenwi dŵr ar gyfer y datblygiad.<br><br>Yn ychwanegol, mae prif bibell ddŵr yn croesi'r safle ond o ystyried y cynlluniau mae'n ymddangos y byddai'r datblygiad wedi ei leoli y tu allan i barth gwarchod y bibell hon ac felly mae'r bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor.<br><br>Rhoddir cyngor safonol parthed materion eraill gan gynnwys materion draenio a systemau suds. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Cyngor safonol parthed materion yn ymwneud a Sŵn Adeiladu, Sŵn Mewnol a Phympiau Gwres Ffynhonnell Aer. |
| Uned Draenio Tir: | Mae cais SAB wedi'i gyflwyno ar gyfer y datblygiad hwn; fodd bynnag, mae wedi'i ohirio ar hyn o bryd gan nad yw Safon 1 (cyrchfan dŵr wyneb) wedi'i datrys yn foddhaol. Felly, rydym yn cyhoeddi gwrthwynebiad dros dro i'r cais cynllunio nes bod y pryderon a godwyd ynghylch cydymffurfio â Safon 1 wedi'u datrys.<br><br>Sylwadau pellach<br>Rydym bellach wedi symud ymlaen gyda'r cais SuDS. Mae'r ymgeisydd bellach wedi derbyn cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd i redeg system dŵr wyneb ar hyd y Briffordd, i mewn i'r cwrs dŵr wedi'i gwlfertio. O'r herwydd, rydym yn fodlon bod safon 1 wedi'i chyflawni. Mae pwyntiau bach yn dal i fod heb eu datrys ar y cais SuDS, fodd bynnag, nid ydym yn cynnig unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Mae'r adroddiadau coed ac ecolegol wedi eu cynhyrchu i safon dda.<br><br>Mae'r ddau adroddiad yn adnabod nodweddion cynefinoedd pwysig ar hyd y ffin orllewinol gan gynnwys coed, gwrych a chloddiau. Mae gosodiad y safle arfaethedig yn bygwth y cynefinoedd hyn. Mae angen cynnwys ardal byffer 5m ar hyd y ffin. |

Mae gwelliannau bwriadedig yn cynnwys plannu coed a gwrychoedd, ardal ymlusgiaid, blychau adar a gwenyn. Mae'r rhain yn fesurau priodol, er hynny dylid diwygio rhai mathau o goed i'w plannu i gynnwys rhywogaethau mwy cynhenid.

Ail ymgynghori

Derbyniwyd cynllun safle diwygiedig mewn ymateb i'r sylw uchod. Mewn ymateb, cadarnhaodd y swyddog Bioamrywiaeth fod hyn yn newid positif ond fod pryderon yn parhau am effaith tŷ rhif 5 y safle ar goed i'w cadw.

Uned Iaith: Dyma asesiad ieithyddol cynhwysfawr, sydd yn dadansoddi hanes datblygiadau ardaloedd cyfagos, yn ogystal â dadansoddiad ieithyddol o'r ardal.

Mae'r awduron hefyd wedi amlinellu'r galw yn lleol, gan gynnwys ystadegau Tîm Opsiynau Tai a Thai Teg ar gyfer ardal y cais a chymunedau cyfagos.

Gan mai datblygiad ar gyfer cartrefi fforddiadwy sydd yma, maent yn debygol o apelio i siaradwyr Cymraeg yr ardal.

Rydym yn pwyso a mesur casgliadau yn erbyn y termau 'negyddol', 'niwtral' a 'positif'. Ni ddylid cyflwyno casgliadau fel 'lled gadarnhaol', neu 'sylweddol' neu 'gweddol gadarnhaol' neu debyg.

Gwasanaeth Tân: Nid oes gan yr Awdurdod Tân unrhyw sylwadau i'w roi ynglŷn â mynedfa i gerbydau Tân a chyflenwad dŵr.

Scottish Power: Heb eu derbyn

Gwasanaeth Archeolegol: Mae'r gwerthusiad a wnaed yn Nhachwedd 2025 yn datgelu mai tystiolaeth gyfyngedig o nodweddion, gweddillion neu ddyddodion archeolegol sydd wedi goroesi. Ar wahân i ffin cae ôl canoloesol a nifer fechan o ddarganfyddiadau o'r un cyfnod, ni ganfyddwyd olion arwyddocaol. Mae potensial archeolegol cyflawn y safle felly yn cael ei ystyried yn isel ac y byddai lliniaru pellach yn annhebygol o ddatgelu gwybodaeth ychwanegol.

Uned AHNE: Heb eu derbyn

Awdurdod Iechyd: Heb eu derbyn

Adran Addysg: O ystyried capasiti a niferoedd dysgwyr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd perthnasol, gwelir fod capasiti ar gael yn yr ysgolion lleol ar hyn o bryd.

Uned Strategol Tai: Gwybodaeth am angen:
Dengys yr isod nifer o ymgeiswyr sydd yn dymuno byw yn yr ardal:-
6 o ddewisiadau ar gofrestr Tai Teg am eiddo canolraddol;
48 o ymgeiswyr o'r gofrestr aros tai cyffredin am eiddo cymdeithasol.

Gwybodaeth am y math o angen:

Dengys yr isod nifer o ystafelloedd gwely mae'r ymgeiswyr yn dymuno: (Tai Teg)

| Nifer stafell gwely | Angen fel % rhent prynu |
| --- | --- |
| 1 gwely / bed | 0% |
| 2 gwely / bed | 50% |
| 3 gwely / bed | 50% |
| 4+ gwely / bed | 0% |

Nifer o stafell wely (Tîm Opsiynau Tai)

| Nifer stafell wely | Angen fel % |
| --- | --- |
| 1 gwely / bed | 39% |
| 2 gwely / bed | 38% |
| 3 gwely / bed | 13% |
| 4 gwely / bed | 8% |
| 5 gwely / bed | 1% |

Addasrwydd y Cynllun:

Ar sail y wybodaeth uchod ymddengys bod y Cynllun yn cyfarch angen yn yr ardal. Mae'r cynllun wedi ei gynnwys o fewn rhaglen i dderbyn Grant Tai Cymdeithasol gan LLC. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfrannu yn uniongyrchol at nod y Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd i ddarparu mwy o dai i gwrdd â'r galw uchel bresennol sydd yn bodoli yn y sir.

| | |
|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybuddion ar y safle ac yn wasgaredig o fewn yr ardal leol a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd llythyrau / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail: |

- Risg llifogydd/draenio cynaliadwy
- Diogelwch traffig a pherygl i'r brifffordd
- Anghenion tai a'u dyraniad
- Safonau dylunio
- Diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau lleol a chenedlaethol gan gynnwys TAN 15
- Datblygiad yn anghydnaws gyda phatrwm a chymeriad presennol y pentref
- Effaith niweidiol ar fwynderau gweledol
- Digon o dai 2 lofft a thai gwag yn barod/ nifer anghymesur o unedau dwy ystafell wely
- Diffyg galw lleol am gynifer o dai
- Amharu ar fywyd y pentref gan achosi newid mawr yng nghyfansoddiad y boblogaeth ac y byddai'r iaith Gymraeg yn dioddef
- Mae'r safle y tu allan i ffin datblygu'r pentref ac mae hynny'n gynsail peryglus
- Cymysgedd tai amhriodol mewn lleoliad gwledig
- Gwrthdaro ag anghenion lleol a chynaliadwyedd cymunedol
- Effaith ar yr iaith Gymraeg a chydlyniant cymunedol
- Datblygiad amhriodol mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Mae afon gerllaw yn gorlifo
- Galw am dai ar werth i bobl leol fyddai'n fuddiol nid i unrhyw un gyda chysylltiad i Wynedd
- Effaith ar Fwyniant Preswyl/newid yr amgylchedd yn sylfaenol, gan ddod â sŵn, gweithgarwch ac aflonyddwch.
- Iechyd a Lles
- Pwysau ar Gapasiti'r Ysgol Leol
- Seilwaith ac Amgylchedd/gwasanaethau lleol megis meddygon teulu a thrafnidiaeth gyhoeddus eisoes dan bwysau
- Cryfder Teimladau Lleol
- Diffyg sylw i safleoedd archeolegol sensitif/olion archeolegol wedi eu canfod yng nghae
- Colled o dir gwyrdd sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth a draenio naturiol gan effeithio ar gynefinoedd naturiol lleol
- Dim mantais economaidd yn lleol

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisi PCYFF 1 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl) yn nodi fod y cynllun ei hun yn adnabod ffiniau datblygu ar gyfer yr ystod o aneddleoedd o fewn y sir ac y caniateir cynigion oddi mewn i'r ffiniau datblygu yn unol â gofynion polisïau perthnasol eraill y Cynllun. Mae hefyd yn nodi *"tu allan i'r ffiniau Datblygu bydd cynigion yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn unol â pholisïau penodol yn y Cynllun hwn neu bolisïau Cynllunio cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol"*.

5.2 Yn yr achos yma, mae'r cais wedi ei gyflwyno am ddatblygiad preswyl ar safle eithrio ac felly rhoddir ystyriaeth yn bennaf i bolisïau PS 17 a TAI 16 mewn achosion o'r fath.

5.3 Gwelir fod pentref Trefor wedi ei ddiffinio fel pentref gwledig / arfordirol yn y CDLl gydag oddeutu 300 o dai ac ychydig o gyfleusterau o fewn y ffin datblygu gyfredol. Yn ôl y wybodaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd gan yr Uned Bolisi Cynllunio, lefel cyflenwad dangosol o dai i Trefor dros gyfnod y Cynllun, yw 13 uned (sydd yn cynnwys 'lwfans llithro' o 10%, sydd yn golygu bod y modd o gyfrifo'r ffigwr wedi cymryd i ystyriaeth amgylchiadau posib na'u rhagwelwyd a allai ddylanwadu ar ddarparu tai e.e. materion perchnogaeth tir, cyfyngiadau seilwaith a.y.b.). Dywedir yn y cyfnod rhwng 2011 a 2025, fod cyfanswm o 10 uned wedi eu cwblhau yn Nhrefor i gyd ar safleoedd ar hap. Roedd y banc tir ar hap h.y. safleoedd gyda chaniatâd cynllunio presennol yn Ebrill 2025 yn 3 uned. Golyga hyn nad oes capasiti o fewn cyflenwad dangosol Trefor ar gyfer datblygiad o'r raddfa yma ac felly mae angen cyfiawnhad ar gyfer y bwriad.

5.4 Mae polisi TAI 4 yn berthnasol i leoliadau o fewn y ffin ddatblygu ond yn yr achos yma, dim ond cyffwrdd yn rhannol a'r ffin mae ffiniau'r cynnig ac felly rhaid ei ystyried fel safle eithrio y tu allan i'r ffin ddatblygu a'r polisi perthnasol yn yr achos yma felly fyddai polisi TAI 16 sydd yn nodi:

"*Os gellir dangos bod angen lleol wedi'i brofi am dai fforddiadwy (fel y'u diffinnir yn y Rhestr Termau) na ellir ei gyfarch o fewn amserlen resymol ar safle marchnad tu mewn i'r ffin ddatblygu sy'n cynnwys gofyniad am dai fforddiadwy, fel eithriad, caniateir cynigion am gynlluniau 100% tai fforddiadwy ar safleoedd sy'n union gerllaw'r ffiniau datblygu sy'n ffurfio estyniad rhesymegol i'r anheddle. Mae'n rhaid i gynigion fod ar gyfer datblygiad ar raddfa fach, sy'n gymesur â maint yr anheddle, oni bai y gellir dangos yn glir bod angen amlwg am safle mwy, a, lle mae'n briodol, rhoddir blaenoriaeth i dir addas a ddatblygwyd o'r blaen".*

5.5 Cyflwynwyd tystiolaeth ar ffurf Datganiad Anghenion Tai a Thai Fforddiadwy yn ogystal ag Arolwg Anghenion Tai a baratowyd gan yr Hwylusydd Tai Gwledig. Y wybodaeth yma yn ogystal â phennod 5.3 o fewn y Datganiad Cynllunio yw'r cyfiawnhad dros yr angen am y 15 tŷ yma. Mae'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno yn cyfeirio at angen sydd wedi ei amlygu ar Gofrestr Tai Cymdeithasol a Thai Teg yn Nhrefor yn ogystal â Llithfaen, Llanaelhaearn a Chlynnog Fawr fel pentrefi gyda ffin ddatblygu wedi eu lleoli o fewn 6km i bentref Trefor. Credir felly, fod angen ystyried y sefyllfa o ran y lefel twf yn yr aneddleoedd hyn yn ogystal. Mae'r rhain fel y ganlyn:

- Llithfaen – Cyflenwad dangosol = 9; Unedau tai wedi eu cwblhau (2011-25) = 7; Banc tir = 1; Diffyg yn weddill = 1
- Llanaelhaearn - Cyflenwad dangosol = 15; Unedau tai wedi eu cwblhau (2011-25) = 2; Banc tir = 2; Diffyg yn weddill = 11
- Clynnog Fawr - Cyflenwad dangosol = 10; Unedau tai wedi eu cwblhau (2011-25) = 6; Banc tir = 0; Diffyg yn weddill = 4

5.6 Mae Polisi TAI 8 yn hyrwyddo cynigion sy'n cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu anghenion a nodir yn y gymuned gyfan. Mae angen ystyried felly os yw'r gymysgedd o unedau a deiliadaeth a'i cynigir yma yn addas er mwyn hyrwyddo cymuned gymysg gynaliadwy. Mae'n bwysig ystyried cynnwys y CCA 'Cymysgedd Tai' wrth sefydlu os yw'r hyn a'i cynigir yn addas, a nodir fod y canllaw yn disgwyl i bob ymgeisydd sy'n cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad tai Dosbarth Defnydd C3 sy'n cynnwys 5 neu fwy o unedau tai gyflwyno Datganiad Tai i gefnogi ei gais cynllunio. Fel y nodir, mae Datganiad Anghenion Tai a Thai Fforddiadwy wedi ei gyflwyno, er bod rhai trigolion lleol yn cyfeirio at ddigon o dai 2 lofft eisoes yn Nhrefor, mae'r dystiolaeth i law yn cadarnhau fod y bwriad yn cymharu'n dda gyda'r angen sydd wedi ei amlygu yn y gofrestr gyfunol.

5.7 Mae Rhestr Termau'r Cynllun yn diffinio Tai Fforddiadwy Angen Lleol o fewn neu ar safleoedd eithrio Pentrefi Lleol neu Wledig / Arfordirol fel; "...pobl mewn angen tŷ fforddiadwy sydd wedi byw o fewn y Pentref neu yn yr ardal wledig o gwmpas am 5 mlynedd neu fwy yn olynol, un ai yn union cyn cyflwyno cais neu yn y gorffennol..."

Mae paragraff 8.1.3 o'r CCA Tai Fforddiadwy yn rhoi diffiniad o'r 'ardal wledig gyfagos' ar gyfer ceisiadau yn y Pentrefi Lleol, Gwledig / Arfordirol sef:

"'ardal wledig gyfagos', sef pellter o 6km o safle'r cais a holl ardal unrhyw Gyngor Cymuned sy'n cael ei rhannu gan y pellter 6km, gan eithrio eiddo o fewn ffin ddatblygu unrhyw anheddiad oni bai am yr anheddiad hwnnw lle mae'r cais wedi'i leoli."

Mae'n wybyddus fod y Gofrestr Tai Cymdeithasol yn cynnwys cadarnhad cysylltiad lleol o 5 mlynedd, ond nad yw'n gwbl glir beth yw hyd y cysylltiad lleol i'r rhai hynny sydd ar gofrestr Tai Teg ar hyn o bryd, ac fe ddisgwylir cadarnhad ar y mater yma.

5.8 Mae'r wybodaeth a gyflwynir fel rhan o'r cais yn cynnwys ffigyrau angen ar gyfer y pentrefi canlynol, wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw gyfleoedd ddatblygu a chaniatadau neu geisiadau presennol ar gyfer unedau fforddiadwy. Mae'r ffigyrau yma yn ddarostyngedig i dderbyn cadarnhad fod cysylltiad lleol yn bodoli:

- Trefor: Angen cyfunol 19
- Llanaelhaearn: Angen cyfunol 12
- Llithfaen: Angen cyfunol 11
- Clynnog Fawr: Angen cyfunol 7

Mae'r wybodaeth yma yn dangos angen cyfunol ar gyfer y pentrefi i gyd fel 49. Fel y nodir uchod mae safleoedd eithrio yn darparu angen ar gyfer y pentref ei hun yn arferol, ynghyd a'r ardal wledig 6km o'i gwmpas ac yn eithrio pentrefi gyda ffiniau datblygu o fewn yr ardal yma, ond yn yr achos yma mae'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno yn dangos fod y pentrefi sydd wedi eu rhestru (sydd o fewn yr ardal 6km) methu cyflawni eu hangen ar gyfer unedau fforddiadwy. I'r perwyl hyn felly, ac yn ddarostynedig i dderbyn cadarnhad o'r cysylltiad lleol, mae'r bwriad yma yn gyfle i ddiwallu angen sydd wedi ei brofi ar gyfer unedau fforddiadwy drwy'r safle yma ac ystyrir fod gwybodaeth ddigonol wedi ei dderbyn er mwyn cynnwys angen yr holl bentrefi a restrwyd yn y datblygiad.

5.9 Bydd y bwriad yn darparu cynllun niwtral o ran daliadaeth sy'n golygu y gallai gynnig cymysgedd o ddaliadaeth wahanol (tai rhent cymdeithasol, tai rhent fforddiadwy canolradd, rhan berchnogaeth) er mwyn gallu diwallu ystod eang o angen ar y pryd a galluogi i aelwydydd symud o rentu i ran berchnogaeth wrth i'w amgylchiadau newid.

5.10 Credir felly fod y cais yn darparu gwybodaeth ddigonol o ran cyfiawnhau'r cymysgedd a'r math o dai a ddarperir a sut fydd y bwriad arfaethedig yn cyfarch anghenion y gymuned leol. Ategir at hyn yn yr ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad gan yr Uned Strategol Tai sy'n cadarnhau bod y Cynllun yn cyfarch angen yn yr ardal.

5.11 Mae'r angen am dystiolaeth yn gwbl hanfodol ar gyfer cynnal asesiad llawn ac yn ofyn sylfaenol gyda'r math yma o gais ac felly i'r perwyl hyn mae'r cynnig ar gyfer tai ble mae angen lleol fforddiadwy wedi ei brofi ar safle sydd wedi ei leoli y tu allan ond yn cyffwrdd y ffin ddatblygu ar gyfer Trefor. Ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio yn llawn a gofynion polisïau TAI 8, TAI 15 a TAI 16 o'r Cynllun Lleol yn ogystal â'r cyngor perthnasol a roddir o fewn y Canllawiau Cynllunio Atodol a chyfarwyddyd cenedlaethol o fewn Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol.

**Mwynderau gweledol**

5.12 Mae tai presennol gerllaw yn gymysgedd o adeiladau deulawr, unllawr, cromen ayyb. Er hynny, byddai gosodiad y tai arfaethedig o fewn cae agored presennol gyda 6 o'r tai i ffwrdd oddi wrth batrwm adeiledig presennol ac felly yn debygol o sefyll allan gan newid edrychiad gweledol y safle. Mae maen prawf 1 polisi PCYFF 3 yn nodi y caniateir cynigion dim ond os.... *"....Eu bod yn ychwanegu at ac yn gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran y gosodiad, yr ymddangosiad, y raddfa, yr uchder, y mas a'r driniaeth i'r drychiadau".*

Yn yr un modd, mae paragraff 7.8.3 o'r CCA: Tai fforddiadwy yn nodi: *"Mae angen i'r safle eithrio fod yn union gerllaw'r ffin ddatblygu a ffurfio estyniad rhesymol i'r anheddiad. Golyga "union gerllaw" y dylai'r safle eithrio arfaethedig fod mewn cysylltiad â'r ffin ddatblygu yng nghyffiniau'r safle. Mewn perthynas â p'un a fyddai'r cynnig yn cael ei ystyried yn estyniad rhesymol i'r anheddiad neu beidio, rhoddir ystyriaeth i p'un a yw'r cynnig yn rhoi diwedd twt i'r ffurf adeiledig neu p'un a fyddai'n ymyrryd yn annerbyniol ar gefn gwlad agored. Bydd effaith y safle arfaethedig ar y dirwedd yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniad am ei addasrwydd".*

5.13 Byddai'r safle yn gwbl weladwy o fewn yr AHNE ac o fannau tu hwnt i'r safle oherwydd natur agored y tir o safle'r cais i gyfeiriad y de a'r dwyrain yn bennaf. Amlygwyd pryderon gan CNC ynglŷn â'r cais fel y'i cyflwynwyd o safbwynt diffyg gwybodaeth. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd ynghylch y dirwedd ac fel yr ysgrifennir yr adroddiad hwn, mae Arfarniad Tirwedd a Gweledol diwygiedig yn cael ei baratoi. Credir mai pryderon trefniadol yn bennaf yw hyn, hynny ydi, nad yw'r arfarniad gwreiddiol a gyflwynwyd yn cynnwys asesiad mwy trylwyr o safbwynt agweddau ychwanegol. Ni chredir ei fod yn wrthwynebiad i'r bwriad yn llwyr o ran effaith y datblygiad yn ffisegol ar yr ardal gyfagos. Mae'r cynnig yn dangos mesurau tirlunio a thriniaethau ffin fyddai'n golygu fod yr effaith weledol yn un y gellir dygymod a fo a'i leihau trwy fesurau addas fel y cynigir.

5.14 Mae'r dyluniad a gorffeniadau arfaethedig yn cyfleu'r math o edrychiadau a welir yn gyffredinol o fewn yr ardal leol sef y defnydd o rendr, cladin carreg a choed a thoeau llechi. Mae datblygiad preswyl cymharol ddiweddar i'w weld cyfochrog a'r safle, sef stad breswyl Llys yr Eifl, yn cynnwys gorffeniadau allanol cymysg sef waliau wedi eu chwipio a rendr. Ni chredir felly y byddai datblygiad preswyl newydd fel yma, er yn amlwg yn fwy o ran dwysedd na datblygiadau preswyl eraill a godwyd eisoes gerllaw, allan o gymeriad o fewn cyd-destun adeiledig yr ardal leol. Credir felly fod y bwriad yn dderbyniol ar sail cydymffurfiaeth gyda gofynion perthnasol polisïau PS 5, PCYFF 3 a TAI 16.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.15 Mae'n anorfod y byddai effaith cynyddol ar fwynderau cyffredinol yr ardal leol a thrigolion cyfagos o'r hyn a geir yn bresennol gan fod y safle yn dir amaethyddol agored fel y mae.

5.16 Mae ffiniau'r 4 tŷ agosaf i'w codi ger y ffin orllewinol yn ochri gyda stribyn o dir y credir iddo fod yn hawl tramwy i diroedd amaethyddol gerllaw. Mae tai agosaf stad Llys yr Eifl yn ymylu gyda'r stribyn yma o dir ac felly credir fod gofod digonol rhwng y tai presennol a'r 4 byngalo newydd fydd i'w codi ar leiniau 1-4. Oherwydd eu ffurf ac uchder ynghyd a thirlunio bwriedig, mi fyddai effaith gor-edrych yn isel iawn o ganlyniad tra byddai presenoldeb hawl tramwy rhwng y ddwy ffin yn creu math o 'byffer' rhwng y ddau safle. Cydnabyddir fod peth amharu yn anorfod o ystyried defnydd amaethyddol presennol y tir a'i ddefnydd preswyl bwriedig, ond fe ystyrir fod ymgais wedi ei wneud i ddylunio a gosod y tai arfaethedig fel bod yr effaith uniongyrchol yn cael ei leihau ac felly ni ystyrir fod y bwriad yn annerbyniol ar sail holl ofynion perthnasol polisi PCYFF 2.

**Ystyriaeth i'r Iaith Gymraeg**

Hoffwn gadarnhau ein bod wedi adolygu ac yn nodi'r newidiadau i'r cynllun i ledu ffordd, ynghyd â'r Asesiad Diogelwch. Mae'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn ymateb i'n sylwadau ar y cynllun.

Hoffwn gyflwyno'r ymateb canlynol i'r mater diogelwch a godwyd gan YGC yn eu hastudiaeth diogelwch, sef gweledеdd y palmant.

Mae'r pryder hwn wedi'i nodi yn yr arolwg diogelwch, a byddwn yn disgwyl i'r argymhelliad gael ei ystyried fel rhan o'r dyluniad manwl a fydd yn cael ei gyflwyno dan gytundeb 278. Gan fod yr argymhelliad yn ymwneud â mater o fanylder technegol ac nad yw'n effeithio ar osodiad cyffredinol y datblygiad, ein barn yw nad yw'n fater sy'n gofyn am sylw fel rhan o'r penderfyniad ar y cais cynllunio.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Diolch am ail-ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â'r uchod, a dderbyniwyd gennym ar 24/12/2025.

**Mae gennym bryderon ynghylch y cais fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn os bydd y ddogfen a nodir isod yn cynnwys y canlynol yn amod y cynlluniau a dogfennau cymeradwy ar yr hysbysiad o benderfyniad:**

- **Enfys Ecology Ltd., Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Preliminary Ecological Appraisal (PEA), 22/5/2025**

**Sylwer, heb gynnwys y ddogfen hon, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Ceir rhagor o fanylion isod.**

**Rhywogaethau a Warchodir**
Rydym wedi adolygu'r wybodaeth ganlynol a gyflwynwyd i gefnogi'r cais:

- Enfys Ecology Ltd., Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Preliminary Ecological Appraisal (PEA), 22/5/2025

Ystlumod
Rydym yn nodi bod yr Arfarniad Ecolegol Arweiniol wedi nodi bod ystlumod yn debygol o ddefnyddio'r safle ar gyfer porthiant a chymudo, gyda'r potensial ar gyfer nodweddion clwydo ystlumod mewn coed aeddfed ar y safle.

Mae ystlumod a'u mannau magu a chlwydo wedi'u diogelu o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Lle mae ystlumod yn bresennol a bod cynnig datblygu'n debygol o fynd yn groes i'r amddiffyniad cyfreithiol a roddir iddynt, dim ond dan drwydded a roddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru y caiff y datblygiad fynd rhagddo, ar ôl bodloni'r tri phrawf a nodir yn y rheoliadau. (Cyfeiriwch hefyd at baragraff 6.3.7 o Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur).
Sylwer, at ddibenion darparu cyngor ar y cam cais cynllunio, mae ein sylwadau wedi'u cyfyngu i'r prawf sy'n ymwneud â "dangos na fydd yn niweidio'r gwaith o gynnal statws cadwraethol ffafriol y boblogaeth o'r rhywogaeth a warchodir gan Ewrop".
Rydym o'r farn bod yr adroddiad uchod yn darparu sail ddigonol i ystyried effeithiau posibl y cynllun ar y rhywogaeth hon a llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
Rydym yn cytuno â'r mesurau lliniaru a nodir yn adran 6.3.2 o'r adroddiad a gyflwynwyd.
Felly, rydym yn cynghori bod y ddogfen ganlynol yn cael ei chynnwys yn y rhestr gymeradwy o gynlluniau / dogfennau o fewn yr hysbysiad penderfyniad:

- Enfys Ecology Ltd., Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol, 22/5/2025

Dyfrgwn
Rydym yn nodi bod yr Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol yn ystyried y gall dyfrgwn ddefnyddio'r safle dros dro ar gyfer porthiant neu gymudo, rydym yn cytuno â'r mesurau osgoi rhesymol a amlinellir yn adran 6 ac yn cynghori bod y rhain yn cael eu cadw.

**Atal Llygredd**
Mae Afon Rhos yn gorwedd o fewn ffiniau'r safle. Nodwn y llain glustogi a'r coridor ecoleg 3m fel y dangosir ar gynllun y safle arfaethedig (DWG RHIF FGL-SAL-A1-ZZ-DR-A-003).
Rhowch wybod i'r datblygwr: Yn ystod y cyfnod adeiladu dylid cymryd rhagofalon i atal halogi draeniau dŵr wyneb a chyrsiau dŵr lleol. Dylid storio olewau a chemegau mewn ardaloedd wedi'u byndio a dylai pecynnau gollwng fod ar gael yn rhwydd rhag ofn

bod gollyngiadau damweiniol. I gael rhagor o ganllawiau, cyfeiriwch at ‘Guidance for Pollution Prevention (GPP) 5: Works and maintenance in or near water’, a ‘GPP 6: Working on construction and demolition sites’, sydd ar gael ar wefan NetRegs.

**Llygredd Tir**
Rydym wedi adolygu'r Astudiaeth Desg Cam 1 a chanfyddiadau'r Ymchwiliad Safle Ymwthiol Cam 2 (a gyflwynwyd yn Adroddiad Amgylcheddol Daearegol, Cadarn Consulting Engineers Ltd, Cyfeirnod 5824L-CCE-XX-XX-RP-S-0001, dyddiedig Gorffennaf 2024). Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd, nid oes gennym unrhyw bryderon i'w codi mewn perthynas â llygredd tir.

**Perygl Llifogydd**
Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod safle y cais o fewn Parth Llifogydd 1, ac felly mewn perygl isel o lifogydd. Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach am berygl llifogydd.

Gan eu bod yn cyflawni rôl yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu ag Adran Draenio'r Awdurdod Lleol i gael rhagor o gyngor mewn perthynas â'r draenio safle arfaethedig. Rydym yn cynghori y dylai unrhyw gynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig sicrhau bod dŵr ffo o'r datblygiad arfaethedig yn cael ei leihau neu na fydd yn fwy na'r cyfraddau dŵr ffo presennol. Dylid cyflwyno manylion mabwysiadu a rheoli hefyd i sicrhau bod y cynllun/systemau yn parhau i fod yn effeithiol am oes y datblygiad.

Sylwadau ar bryderon trigolion lleol:

Diolch am anfon ymlaen rhai o’r pryderon sy’n gysylltiedig â’r datblygiad arfaethedig uchod. Nodwn mai pryderon traeniad a bywyd gwyllt yw rhai o’r pryderon sydd wedi cael eu nodi.

O ran pryderon traeniad, mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod safle y cais o fewn Parth Llifogydd 1, ac felly mewn perygl isel o lifogydd. Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach am berygl llifogydd. Gan eu bod yn cyflawni rôl yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu ag Adran Draenio Awdurdodau Lleol i gael rhagor o gyngor mewn perthynas â'r draenio safle arfaethedig. Rydym yn cynghori y dylai unrhyw gynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig sicrhau bod dŵr ffo o'r datblygiad arfaethedig yn cael ei leihau neu na fydd yn fwy na'r cyfraddau dŵr ffo presennol. Dylid cyflwyno manylion mabwysiadu a rheoli hefyd i sicrhau bod y cynllun/systemau yn parhau i fod yn effeithiol am oes y datblygiad.

Am unrhyw bryderon am ddraeniad dwr budr, dylid trafod hyn efo Dwr Cymru.

| | |
|---|---|
| | O ran pryderon am fywyd gwyllt, cyfeiriwn at ein hymateb dyddiedig 16 Hydref 2025. Rydym yn argymell eich bod yn trafod yr angen i sicrhau mesurau ecolegol pellach / osgoi / mesurau goleuo gyda'ch cynghorydd ecolegol mewnol |
| Dŵr Cymru: | I ddechrau, o ran y ffurflen gais sydd wedi'i chyflwyno a'r Strategaeth Ddraenio atodol, rydym yn cydnabod bod y datblygiad yn cynnig gwaredu llif dŵr aflan a dŵr wyneb i garthffos gyhoeddus a suddfan yn ôl eu trefn.<br><br>**DŴR AFLAN**<br><br>Mae'r safle datblygu arfaethedig wedi'i leoli yn nalgylch system garthffos gyhoeddus sy'n draenio i Waith Trin Dŵr Aflan Llanrug (WwTW). Rydym wedi ystyried effaith y llifoedd aflan a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan y datblygiad arfaethedig ac wedi penderfynu y byddai'n bosib i'r llif fynd drwy'r system garthffos gyhoeddus.<br><br>**DŴR WYNEB**<br>Gan droi at ddraenio dŵr wyneb, ers 7 Ionawr 2019, mae'r datblygiad arfaethedig yn destun Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Felly, mae'r datblygiad angen cymeradwyaeth ar gyfer nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), yn unol â'r 'Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau draenio dŵr wyneb'. Yn yr achos hwn, nid ydym yn cynnig unrhyw wrthwynebiad i gynigion i waredu llif dŵr wyneb i gorff o ddŵr arwyneb, mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghori a chytundeb â'r corff rheoleiddio neu berchennog torlannol y system hon.<br><br>**TRIN CARTHION**<br>Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff ar gyfer trin arllwysiadau domestig o'r safle hwn.<br><br>**CYFLENWAD DŴR**<br>Mae capasiti ar gael ar hyn o bryd yn y system cyflenwad dŵr i ymdopi â'r datblygiad. Fodd bynnag, mae gennym yr hawl i ail-asesu ein safbwynt fel rhan o'r cais ffurfiol i ddarparu prif bibell newydd dan Adran 41 ac Adran 51 Deddf Diwydiant Dŵr (1991) i sicrhau bod capasiti digonol ar gael i wasanaethu'r datblygiad heb achosi niwed i gyflenwad cwsmeriaid presennol gan fod gofynion ein systemau dŵr yn newid yn barhaus.<br><br>Felly, gofynnwn os ydych yn debygol o roi caniatâd cynllunio i'r datblygiad uchod, bod y Nodiadau Cynghori yn cael eu cynnwys yn y caniatâd i sicrhau nad oes unrhyw niwed i drigolion presennol na'r amgylchedd nac i asedau Dŵr Cymru. |
| Uned Hawliau Tramwy | Cyfeiriaf at y cais uchod. Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Llwybr Troed) rhif 74 yng Nghymuned Llanrug yn cael ei heffeithio gan y bwriad yma (Gweler cynllun uchod). Fel y gwelir, mae'r llwybr yn |

| | |
| --- | --- |
| | croesi ar draws y safle. Mae diogelwch y cyhoedd yn cymryd blaenoriaeth yma, ac felly bydd rhaid i'r ymgeisydd gysylltu efo'r Uned Hawliau Tramwy ar Llwybrau@gwynedd.llyw.cymru, er mwyn trafod cau'r llwybr dros dro. Bydd hefyd yn gyfle i drafod unrhyw ddyluniad y llwybr efo'r swyddog. Bydd angen i'r ymgeisydd hefyd dderbyn bod disgwyliad i'r llwybr gael y lleiafswm o 2 fetr o led. |
| Heneb | Diolch am ymgynghori â ni ar y cais uchod. Fel y manylwyd yn y dogfennau a gyflwynwyd, mae safle'r cais wedi bod yn destun gwerthusiad archeolegol mewn camau, yn cynnwys asesiad pen-desg, arolwg geoffisegol a ffosydd prawf. Rydym wedi monitro'r gwaith hwn ar ran y cyngor a gallwn gadarnhau fod pob cam wedi'i gwblhau yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol. Sefydlwyd gan y gwaith maes nad oes archaeoleg yn y rhan fwyaf o'r safle, ond cadarnhawyd bod twmpath llosg o'r Oes Efydd Hwyr yn bresennol yn y cae i'r de-ddwyrain. Mae twmpathau llosg yn amrywio'n fawr o ran eu ffurf ond fel arfer maent yn cynnwys cafn wedi'i gloddio yn y ddaear ac yna'i leinio, pydewau neu aelwydydd tân, tyllau eraill ac thyllau post a thwmpath mawr o gerrig wedi'u llosgi. Er eu bod yn nodweddion eithaf cyffredin, maent yn arwydd pwysig o anheddiad ac yn ffynhonnell gynradd o dystiolaeth ar gyfer y cyfnod hwn.<br>Nid yw'r twmpath llosg yn ddigon pwysig bod angen ei warchod yn ei le, ond mae angen ei gloddio'n briodol a'i gofnodi i liniaru yn erbyn ei golli yn sgil y datblygiad.<br><br>Yn sgil y sylwadau uchod ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 12 a NCT24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, argymhellir bod yr awdurdod lleol, os rhoddir caniatâd cynllunio, yn mynnu bod rhaglen liniaru gymesur yn cael ei gweithredu. Awgrymir y geiriad isod fel amod i sicrhau gwaith o'r fath:<br><br>(i) Ni ddylai unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys clirio'r safle, stripio uwchbridd neu waith arall ar y ddaear) ddigwydd hyd nes bod yr ymgeisydd (neu eu hasiant neu olynwyr mewn teitl) wedi cyflwyno manyleb o waith archeolegol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a bod yr Awdurdod wedi ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd rhaid ymgymryd â'r datblygiad a chwblhau'r holl waith archeolegol yn unol â'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig a gymeradwywyd.<br><br>(ii) Bydd adroddiad dadansoddol manwl terfynol ar y gwaith archeolegol a ddisgrifir yn y fanyleb o waith archeolegol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn 6 mis i gwblhau'r gwaith maes archeolegol.<br>Rhaid i'r adroddiad gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Rhesymau: 1) Sicrhau bod rhaglen briodol o waith lliniaru archeolegol yn cael ei gweithredu yn unol â gofynion Polisi |

| | |
| --- | --- |
| | Cynllunio Cymru 2024 a NCT24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.<br><br>2) Sicrhau y bydd y gwaith yn cydymffurfio â MORPHE/Rheolaeth Prosiectau Archeolegol (MAP2) a Safonau a Chanllaw Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA).<br><br>Dylai'r rhaglen liniaru gynnwys y gwaith o gloddio'r twmpath llosg ac unrhyw nodweddion cysylltiedig na ddaeth i'r fei yn ystod y gwaith ffosydd prawf, ynghyd â gwaith dilynol i ddadansoddi, adrodd ac archifo yn unol â'r hyn a ddarganfyddir. Rhaid i gwmni archeolegol proffesiynol sydd â phrofiad o waith o'r natur hwn ymgymryd â phob agwedd o'r rhaglen liniaru. |
| Uned Draenio Tir | Mae cais llawn SDC wedi'i gyflwyno ar gyfer y datblygiad hwn. Mae'r CCS wedi bod yn trafod gyda'r asiant a dim ond ychydig o bwyntiau bach sydd angen mynd i'r afael â nhw cyn y gallwn gyhoeddi tystysgrif cymeradwyo.<br>Oherwydd hyn, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiadau i'r cais cynllunio hwn. |
| Uned Bioamrywiaeth | Mae'r adroddiadau ecolegol wedi'u cwblhau i safon dda - mae'r datblygiad hwn yn dilyn y dull cam-wrth-gam gan osgoi a chadw nodweddion bioamrywiaeth o bwys fel sy'n rhesymol ymarferol, a chynnig mesurau lliniaru priodol, mesurau digolledu a gwella i gyrraedd Budd Net i Fioamrywiaeth, fel y dengys yn y cynllun dylunio tirweddu meddal.<br><br>Dylid cynnwys amodau cynllunio gan gadw'n union at y dyluniad tirweddu a'r RAMS a ddarperir yn y ddau adroddiad ecolegol (Arfarniad Ecolegol Cychwynnol ac Arolwg Ymlusgiaid) a'r adroddiad coedyddiaeth - yn benodol o ran trawsleoli ymlusgiaid ac ardaloedd gwarchod gwreiddiau coed / ffrydiau a ffensio cyn dechrau'r gwaith. |
| Uned Dŵr ac Amgylchedd YGC | Mae safle'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n rhannol o fewn Parth Llifogydd 2 a 3 (Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach) fel y dangosir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. O'r herwydd, ac yn unol â rhan 6 TAN 15, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd fel rhan o'r cais (Cadarn, Mehefin 2025 - derbyniwyd fersiwn 3 yn Rhagfyr 2025). Rydym wedi adolygu'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) ac yn fodlon â lefel y risg a ddangosir i'r datblygiad ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau, a hefyd fod ddim cynnydd yn y risg llifogydd i eiddo tu hwnt i safle'r datblygiad arfaethedig.<br><br>GWYBODAETH: Mae cwrs dŵr agored yn rhedeg ar hyd ffin ddwyreiniol y datblygiad arfaethedig a bydd angen i'r datblygiad |

| | |
| --- | --- |
| | newydd ystyried y ffos yma a sicrhau fod modd ei chynnal yn y dyfodol. Rydym yn argymell corridor o 3m (lleiafswm) o lan y cwrs dwr heb ei ddatblygu er mwyn galluogi hyn. Bydd angen Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin ar gyfer unrhyw waith a allai effeithio ar lif y nant a dylid cysylltu â FCRMU@gwynedd.llyw.cymru i gael cyngor pellach. |
| Uned Iaith: | Y risg/effaith ieithyddol a adnabyddir gan yr ymgeisydd: Buddiol yn gyffredinol<br><br>Barn gryno'r Uned Iaith:<br><br>Dyma Asesiad Iaith gynhwysfawr, sydd yn amlinellu'r cyd-destun ieithyddol, nid yn unig o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Llanrug (sef ardal y cais), ond hefyd o fewn ardaloedd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a Chyngor Cymuned Waunfawr gerllaw, gan gynnwys yr ystadegau ieithyddol diweddaraf sydd ar gael o Gyfrifiad 2021, yn ogystal â dadansoddiad fesul grwpiau oedran. Mae'r awdur hefyd wedi amlinellu'r angen yn lleol wrth ddarparu ystadegau Tîm Opsiynau Tai a Thai Teg, yn ogystal â hanes ceisiadau cynllunio yn yr ardal.<br><br>Mae'r wybodaeth yn yr asesiad yn cefnogi'r risg/effaith ieithyddol a adnabyddir uchod. |
| Uned Addysg: | O ystyried y capasiti sydd ar gael yn yr Ysgol Gynradd ac Uwchradd a'r nifer o blant y byddai'n deillio o'r datblygiad, gwelir fod capaisiti ar gael yn yr ysgolion lleol ar hyn o bryd. |
| Gwarchod y Cyhoedd: | Heb eu derbyn |
| Uned Strategol Tai: | **Gwybodaeth am angen:**<br>Dengys yr isod nifer o ymgeiswyr sydd yn dymuno byw yn yr ardal:-<br><br>131 o ddewisiadau ar gofrestr Tai Teg am eiddo canolraddol<br><br>292 o ymgeiswyr o'r gofrestr aros tai cyffredin am eiddo cymdeithasol<br><br>**Ffynhonnell y data:**<br>Tai Teg<br>Cofrestr Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd<br><br>**Sylwadau:**<br>** Fe all y ffigyrau fod wedi ei dyblygu**<br><br>**Gwybodaeth am y math o angen:**<br>Dengys yr isod nifer o ystafelloedd gwely mae'r ymgeiswyr yn dymuno: |

Nifer o stafelloedd gwely  (Tai Teg)

| Nifer stafell gwely | Angen fel % | rhent | prynu |
| --- | --- | --- | --- |
| 1 gwely / bed | 2% | 8% | 1% |
| 2 gwely / bed | 39% | 32% | 17% |
| 3 gwely / bed | 53% | 17% | 20% |
| 4+ gwely / bed | 6% | 2% | 2% |

Nifer o stafell wely
(Tîm Opsiynau Tai)

| Nifer stafell wely | Angen fel % |
| --- | --- |
| 1 gwely / bed | 27% |
| 2 gwely / bed | 43% |
| 3 gwely / bed | 22% |
| 4 gwely / bed | 8% |
| 5 gwely / bed | 1% |

**Ffynhonnell y data:**
Tai Teg
Cofrestr Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd
** Fe all y ffigyrau fod wedi ei dyblygu**

**Addasrwydd y Cynllun:**
Ar sail y wybodaeth uchod ymddengys bod y Cynllun yn :-

**Cyfarch**
angen yn yr ardal

Disgwylir fod cynlluniau yn cynnwys 20% o dai fforddiadwy.
Nodi'r bydd 100% o'r unedau yn fforddiadwy fel rhan o'r cynllun yma

Petai'r Gymdeithas Tai yn bartner ar gyfer y datblygiad hwn fydd angen gofyn bod y dyluniad yr eiddo cydymffurfio gyda safon LLC (DQR)

Noder bod y cais ar ran cymdeithas dai Adra ac felly angen cydymffurfio gyda safon LLC (DQR)

Mae'r cynllun wedi ei gynnwys o fewn rhaglen i dderbyn Grant Tai Cymdeithasol gan LLC.

Mae'r cynlluniau hyn yn cyfrannu yn uniongyrchol at nod y Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd i ddarparu mwy o dai  i gwrdd â'r galw uchel bresennol sydd yn bodoli yn y sir.

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Diogelwch ffyrdd, cynnydd mewn traffic a sefyllfa traffic yn ystod amseroedd penodol, ffyrdd presennol yn beryglus a chul, cyffordd is-safonol, parcio ar y ffordd a mynediad i gerbydau brys
- Pryderon ynglŷn â diogelwch cerddwyr ac effaith at y llwybr cyhoeddus.
- Effaith ar yr Ysgol/dim bwriad i ymestyn yr Ysgol.
- Rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaeth iechyd lleol.
- Amheuaeth a phryder dros y nifer o dai
- Pryder ynglŷn â'r sefyllfa carthffosiaeth.
- Pryderon dros Fioamrywiaeth.
- Pryderon Dwr Wyneb a thir gwlyb
- Pryderon dros ddatblygu tir glas/safle eithrio yn lle o fewn y ffin a chreu cynsail.
- Cais cynamserol oherwydd nad oes Cynllun Datblygu newydd.
- Effaith ar fwynderau'r trigolion cyfagos ar sail llygredd aer
- Creu cynsail at ddatblygiadau cyffelyb.
- Effaith weledol ac ar y dirwedd
- Pryderon ynglŷn â llifogydd.
- Gosod gorsaf drydanol ac ail leoli gwifren ger tŷ cymydog.
- Mae tai gwag yn bresennol yn y pentref

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:

- Amheuaeth ynglŷn â defnydd y cae
- Trafodaethau ynglŷn â datblygu safleoedd eraill

Gohebiaeth yn cefnogi:

- Dim tai cymdeithasol wedi eu codi yn Llanrug ers blynyddoedd

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae'r safle dan sylw wedi ei leoli y tu allan i ffin ddatblygu Llanrug fel y'i nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ond mae'n cyffwrdd yn union gyda'r ffin ddatblygu. Yn hyn o beth y gellir ystyried y safle fel safle eithrio yn nhermau gofynion Polisi TAI 16 (Safleoedd Eithrio) y CDLl ar y Cyd.

5.2 Nodai Polisi PCYFF 1 ('Ffiniau Datblygu') y bydd cynigion yn cael eu gwrthod y tu allan i ffiniau datblygu oni bai eu bod yn unol â pholisïau penodol yn y Cynllun neu bolisïau cynllunio cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol. Mae Polisi TAI 16 (‘Safleoedd Eithrio’) yn galluogi datblygu tai ar safleoedd sydd y tu allan ond yn ffinio â ffiniau datblygu ond mae’n rhaid sicrhau fod y bwriad yn cydymffurfio yn effeithiol â gofyniad y Polisi. Nid yw’r safle wedi ei ddynodi na’i warchod ar gyfer unrhyw ddefnydd tir penodol.

5.3 Mae Maen Prawf (3) ym Mholisi PCYFF 2 yn ceisio sicrhau y gwneir y defnydd gorau o dir, gan gynnwys dwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar o ran datblygiadau preswyl (oni bai bod yna amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau ar y safle sy’n pennu dwysedd is). Mae’r bwriad yn cynnwys adeiladu 17 o dai preswyl ynghyd a ffordd ystâd ar dir sy’n mesur tua 0.74 ha. Golyga hynny mai dwysedd y bwriad yw oddeutu 22 uned yr hectar, sy’n sylweddol llai na’r ffigwr o 30 yn y Polisi. Nodir bod gwybodaeth a gyflwynwyd gyda’r cais yn datgan fod y dwysedd yn is na'r hyn sy'n ofynnol gan Bolisi PCYFF 2 o oherwydd cyfyngiadau ar y safle a'r angen i ddarparu ar gyfer nodweddion SuDS ac ardaloedd ar gyfer gwella ecoleg. Sylweddolir hynny, a bod rhan ogleddol o ffordd yr ystâd yn gwasanaethu tai ar un ochr yn unig.

5.4 Y lefel cyflenwad dangosol o dai i Lanrug dros gyfnod y Cynllun, fel nodir yn Atodiad 5 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yw 61 uned (sydd yn cynnwys ‘lwfans llithro’ o 10%, sydd yn golygu bod y modd o gyfrifo’r ffigwr wedi cymryd i ystyriaeth amgylchiadau posib na’u rhagwelwyd a allai ddylanwadu ar ddarparu tai e.e. materion perchnogaeth tir, cyfyngiadau seilwaith a.y.b.). Yn y cyfnod 2011 i 2025 mae cyfanswm o 53 uned wedi eu cwblhau yn Llanrug (38 ar safleoedd ar hap a 15 ar ddynodiadau tai T44 a T45). Roedd y banc tir ar hap h.y. safleoedd gyda chaniatâd cynllunio presennol ar safleoedd nad sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai, yn Ebrill 2025 yn 10 o unedau. Mae un uned ar ddynodiad T44 (Cae’r Ysgol) yn parhau yn y banc tir (heb ddechrau Ebrill 2025).

5.5 Byddai’r bwriad hwn felly yn golygu darpariaeth a fyddai’n uwch na’r ffigwr cyflenwad dangosol ar gyfer Llanrug gan ystyried yr unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau yn ystod oes y Cynllun a’r unedau sydd yn y banc tir.

5.6 Bydd Fframwaith Fonitro’r Cynllun yn ystyried y nifer o unedau fydd yn cael eu cwblhau’n flynyddol er mwyn penderfynu os yw’r Cynllun yn cyflawni’r gofyniad tai. Cwblhawyd 1317 uned rhwng 2011 a 2025 ym mhob Canolfan Gwasanaeth Lleol ac roedd 297 yn y banc tir yn 2025. Golyga hyn fod diffyg o 92 uned o fewn yr haen gyfan. Yn seiliedig ar y gyfradd gwblhau hyd yma o fewn y categori Canolfannau Gwasanaeth Lleol mae’r bwriad hwn yn dderbyniol ar sail y sefyllfa bresennol.

5.7 Er hyn, gan y byddai’r bwriad yn golygu mynd y tu hwnt i’w lefel twf dangosol lleol, mae angen cyfiawnhad ar gyfer y datblygiad yma, a nodir fod y bwriad wedi ei gyflwyno ar gyfer cyfarch angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy.

5.8 Cyflwynwyd tystiolaeth ar ffurf Datganiad Tai Fforddiadwy a Thystiolaeth o’r Angen a Strategaeth Gosod. Y wybodaeth yma yw’r cyfiawnhad dros yr angen am y 17 tŷ yma. Mae’r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno yn cyfeirio at angen sydd wedi ei amlygu ar Gofrestr Tai Cymdeithasol a Thai Teg yn Llanrug yn ogystal â Chwm y Glo fel pentref gyda ffin ddatblygu wedi eu lleoli o fewn 6km i Lanrug. Credir felly, fod angen ystyried y sefyllfa o ran y lefel twf yn yr anheddle yma yn ogystal. Mae hyn fel y ganlyn:

Cwm y Glo – Cyflenwad dangosol = 13; Unedau tai wedi eu cwblhau (2011-25) = 10; Banc tir = 5; Diffyg yn weddill = -2

5.9 Mae Polisi TAI 8 yn hyrwyddo cynigion sy'n cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu anghenion a nodir yn y gymuned gyfan. Mae angen ystyried felly os yw'r gymysgedd o unedau a deiliadaeth a'i cynigir yma yn addas er mwyn hyrwyddo cymuned gymysg gynaliadwy. Mae'n bwysig felly ystyried cynnwys y CCA 'Cymysgedd Tai' wrth sefydlu os yw'r hyn a'i cynigir yn addas, a nodir fod y canllaw yn disgwyl i bob ymgeisydd sy'n cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad tai Dosbarth Defnydd C3 sy'n cynnwys 5 neu fwy o unedau tai gyflwyno Datganiad Tai i gefnogi ei gais cynllunio. Fel y nodir, yn nogfennau'r cais, mae'r bwriad yn cymharu'n dda gyda'r angen sydd wedi ei amlygu yn Llanrug, gan nodi fod angen penodol wedi ei amlygu ar gyfer y tŷ 5 ystafell wely ar gyfer trigolion cyfredol y gymdeithas tai o fewn y pentref.

5.10 Mae Rhestr Termau'r Cynllun yn diffinio Tai Fforddiadwy Angen Lleol o fewn neu ar safleoedd eithrio Canolfan Gwasanaeth Lleol fel; "...pobl mewn angen tŷ fforddiadwy sydd wedi byw o fewn y Canolfan Wasanaeth Lleol neu yn yr ardal wledig o gwmpas am 5 mlynedd neu fwy yn olynol, un ai yn union cyn cyflwyno cais neu yn y gorffennol..."

Mae paragraff 8.1.3 o'r CCA Tai Fforddiadwy yn rhoi diffiniad o'r 'ardal wledig gyfagos' sef:

"'ardal wledig gyfagos', sef pellter o 6km o safle'r cais a holl ardal unrhyw Gyngor Cymuned sy'n cael ei rhannu gan y pellter 6km, gan eithrio eiddo o fewn ffin ddatblygu unrhyw anheddiad oni bai am yr anheddiad hwnnw lle mae'r cais wedi'i leoli."

Mae'n wybyddus fod y Gofrestr Tai Cymdeithasol yn cynnwys cadarnhad cysylltiad lleol o 5 mlynedd, ac mae'r ffigwr cofrestr Tai Teg wedi ei ffiltro i gynnwys rhai sydd a cysylltiad 5 mlynedd yn unig. Bydd y bwriad yn darparu cynllun gyda chymysgedd o rent cymdeithasol a rhent canolraddol.

5.11 Cyflwynwyd tystiolaeth fel rhan o'r cais ar gyfer yr angen ar gyfer tai fforddiadwy yn Llanrug. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn cynnwys cadarnhad o'r nifer sydd ar Gofrestr Tai Cymdeithasol gyda chysylltiad 5 mlynedd ar gyfer Llanrug yn 22, a'r Gofrestr Tai Teg yn 26 sy'n rhoi ffigwr cyfunol o 48. Nid oes safle wedi ei ddynodi ar gyfer tai ar gael yn Llanrug, ac mae caniatadau cyfredol ar gyfer 4 uned fforddiadwy yn bodoli ar hyn o bryd a chyfleoedd ar gyfer darparu tai fforddiadwy ar hap yn gyfyngedig i un neu ddwy uned. Golygai hyn fod y ffigwr cyfunol a chyfredol ar gyfer angen am dai fforddiadwy yn Llanrug yn 42, o ystyried y cyfleon sydd ar gael o fewn Llanrug. Mae gwybodaeth wedi ei ddarparu sy'n cadarnhau fod stoc tai Adra yn Llanrug (67 o dai) yn cynnwys achosion o tanlenwi a gorlenwi tai presennol. Golygai hyn fod yr angen ar gyfer tai 2 lofft yn uwch, ac mae'n cyfiawnhau'r angen ar gyfer yr eiddo 5 llofft. Ar sail y holl wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno, ystyrir ei fod yn ddigonol ar gyfer profi angen penodol ar gyfer y bwriad yma ar gyrion y pentref. Fel sydd wedi ei nodi'n barod, mae bwriad diwallu angen am dai fforddiadwy pentref cyfagos Cwm y Glo fel blaenoriaeth yn ogystal â Llanrug. I'r perwyl hyn mae tystiolaeth wedi ei ddarparu sy'n dangos y nifer sydd ar Gofrestr Tai Cymdeithasol gyda chysylltiad 5 mlynedd ar gyfer Cwm y Glo yn 7 a Chofrestr Tai Teg yn 3 sy'n rhoi ffigwr cyfunol o 10. Mae posib fod y ffigwr yma yn cynnwys dyblygu gyda ffigwr cyfunol Llanrug, ac felly ni ystyrir ei fod yn briodol ystyried y ffigwr yma yn angen gwbl ychwanegol, ond gan nad oes cyfle ar gyfer datblygu tai yn y pentref ac nid oes ceisiadau na chaniatadau presennol ar gyfer unedau fforddiadwy, ac oherwydd agosatrwydd y pentref i Lanrug, ystyrir ei fod yn dderbyniol i'r datblygiad yma ddiwallu angen Cwm y Glo hefyd.

5.12 Fel y nodir uchod mae safleoedd eithrio yn darparu angen ar gyfer y pentref ei hun yn arferol, ynghyd a'r ardal wledig 6km o'i gwmpas ac yn eithrio pentrefi gyda ffiniau datblygu o fewn yr ardal yma, ond yn yr achos yma mae'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno yn dangos fod Cwm y Glo (sydd o fewn yr ardal 6km) methu cyflawni ei angen ar gyfer unedau fforddiadwy. I'r perwyl hyn felly mae'r bwriad yma yn gyfle i ddiwallu angen sydd wedi ei brofi ar gyfer unedau fforddiadwy drwy'r safle yma ac ystyrir fod gwybodaeth ddigonol wedi ei dderbyn er mwyn cynnwys angen Llanrug a Chwm y Glo yn y datblygiad.

5.13 Mae paragraff 4.1.7 o CCA Tai Fforddiadwy yn cadarnhau:

"Lle nad yw'r prif ffynonellau (AMTLl, cofrestr Tai Cyffredinol a Thai Teg) neu dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd wedi adnabod angen am Dai Fforddiadwy ar gyfer angen lleol mewn lle gwledig (e.e. oherwydd nad yw'r aelwydydd dan sylw wedi dewis cofrestru eu hangen neu eu blaenoriaeth am aneddiadau penodol) yna arolwg lleol yw'r ffordd orau o ddangos angen am dai fforddiadwy. Unigolyn / cwmni / gwasanaeth cymwys, megis Hwylusydd Tai Gwledig, ddylai gynnal yr arolwg a dylid cytuno ar y fethodoleg gyda'r Cyngor"

5.14 Yn yr achos yma felly, gan fod yr angen wedi ei brofi o'r prif ffynonellau a thystiolaeth gan yr ymgeisydd, yn unol gyda gofynion y CCA nid oes pwrpas cynnal arolwg lleol gan Hwylusydd Tai Gwledig.

5.15 Credir felly fod y cais yn darparu gwybodaeth ddigonol o ran cyfiawnhau'r cymysgedd a'r math o dai a ddarperir a sut fydd y bwriad arfaethedig yn cyfarch anghenion y gymuned leol. Ategir at hyn yn yr ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad gan yr Uned Strategol Tai sy'n cadarnhau bod y Cynllun yn cyfarch angen yn yr ardal.

5.16 Mae'r angen am dystiolaeth yn gwbl hanfodol ar gyfer cynnal asesiad llawn ac yn ofyn sylfaenol gyda'r math yma o gais ac felly i'r perwyl hyn mae'r cynnig ar gyfer tai ble mae angen lleol fforddiadwy wedi ei brofi ar safle sydd wedi ei leoli y tu allan ond yn cyffwrdd y ffin ddatblygu ar gyfer Llanrug. Ystyrir fod y bwriad yn ffurfiol estyniad rhesymegol i'r pentref ac felly yn cydymffurfio yn llawn a gofynion polisïau PCYFF 1 a 2, TAI 8, TAI 15 a TAI 16 o'r Cynllun Lleol yn ogystal â'r cyngor perthnasol a roddir o fewn y Canllawiau Cynllunio Atodol a chyfarwyddyd cenedlaethol o fewn Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol.

**Mwynderau gweledol**

5.17 Mae Polisi PCYFF3 yn datgan caniateir cynigion, gan gynnwys estyniadau a newidiadau i adeiladau a strwythurau presennol os ydynt yn cydymffurfio a nifer o feini prawf sy'n cynnwys bod y cynnig yn ychwanegu neu yn gwella cymeriad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran y gosodiad, yr ymddangosiad, y raddfa, yr uchder, y mas a'r driniaeth i'r drychiadau; ei fod yn parchu cyd-destun y safle a'i le yn y dirwedd leol; ei fod yn defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r hyn sydd o'u hamgylch ac yn ymgorffori tirlunio meddal; ei fod yn gwella rhwydwaith cludiant a chyfathrebu diogel ac integredig; eu bod yn cyfyngu rhediad dwr a pherygl risg llifogydd ac atal llygredd; ei fod yn cyflawni dyluniad cynhwysol ac sy'n galluogi mynediad i bawb a'i fod yn helpu creu amgylcheddau iach a bywiog gan ystyried iechyd a lles defnyddwyr y dyfodol.

5.18 Mae'r cais yn cynnwys datblygu cae gwyrdd yn ystâd o dai preswyl. Lleolir y safle ar gyrion y pentref a thu allan i ffin datblygu'r pentref. Mae anheddau i'r De, Ffordd Glanffynnon i'r Gorllewin, cae amaethyddol a thir gwag wedi gordyfu i'r Dwyrain a thai preswyl y pentref i'r Gogledd. Mae'r

tir yn cynnwys tri o gaeau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddefaid a gwartheg bori arno. Mae clawdd a gwrych yn rhedeg ar hyd terfyn y safle gyda'r ffordd Glanffynnon.

5.19 Byddai'r bwriad yn cynnwys agor bwlch yng nghlawdd y ffordd ar gyfer creu mynedfa newydd yn rhan ddeheuol y safle. Datgan adroddiad Coed y bwriedir cadw gwrych ar hyd terfyn ffordd Glanffynnon, llwyn o goed brodorol yng nghornel gogledd dwyreiniol, coeden dderw ar derfyn Ffordd Glanffynnon a choeden dderw yng nghanol y safle. Mae’r tai o ddyluniad sy’n debyg o dai a welir yn y pentref ac yn ddarostyngedig i orffeniad addas ystyrir eu bod yn dderbyniol. Derbyniwyd cynllun tirlunio yn dangos gwrychoedd a choed i’w cadw, a chan fod y bwriad yma wedi ei leoli ar gyrion y pentref, ystyrir ei fod yn dderbyniol ac nad yw’n cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad yr ardal na’r dirwedd ehangach. Credir felly fod y bwriad yn dderbyniol ar sail cydymffurfiaeth gyda gofynion perthnasol polisïau PS 5, PCYFF 3 a 4 a TAI 16.

**Mwynderau cyffredinol  a phreswyl**

5.20 Hysbysebwyd y cais yn y wasg, ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu a chefnogi'r bwriad. Nodir pwyntiau cefnogi a gwrthwynebu uchod.

5.21 Lleolir y safle y tu allan i ffin datblygu ac o’r herwydd nid yw wedi ei amgylchu gan dai. Lleolir y tŷ agosaf i safle y cais tua 13 medr i’r gogledd,  byddai dyluniad cefn y tŷ hwnnw yn edrych ar ddyluniad ochr tŷ unllawr ar yr ystâd bwriededig. Byddai terfyn deheuol y safle led cae bychan oddi wrth anheddle o’r enw Afon Rhos. Mae’r tai ar ystâd Minffordd i’r gorllewin dros y ffordd sirol ac yn cael rhywfaint o gysgod gan wrych ffordd. Nid yw’n debygol y byddai'r bwriad yn cael effaith negyddol sylweddol ar breifatrwydd trigolion cyfagos. Parthed effaith sŵn yn codi o weithgareddau a thraffig ystâd dai newydd, ni ragwelir y byddai yn amharu yn sylweddol ar dai gerllaw.

5.22 Nodir o’r cynllun safle y bwriedir gosod adeilad is-orsaf bychan rhwng llain rhif 8 ac eiddo adnabyddir fel Glanffynnon Byngalo ynghyd a diddymu’r gwifrau trydan uwchben y safle a’u gosod uwchben y ddaear yn yr ardal yma, gyda’r union leoliad y gwifrau i’w gadarnhau. Mae’r is-orsaf wedi ei dirweddu gyda gwrych brodol i’w blannu ogwmpas, ac ystyrir fod pellter digonnol rhyngddo a’r tai cyfagos. Nid oes sylwadau Gwarchod y Cyhoedd wedi eu derbyn ar adeg ysgrifennu’r adroddiad, ond ystyrir y byddai modd lliniaru unrhyw bryder o ran swn gyda mesurau i’w leihau megis insiwleiddio, cynyddu’r tirwedd neu rhwystr acwstig. Byddai symud y gwifrau uwchben yn destun sylw ar wahan o dan y Ddeddf Trydan gan fod gan ymgynghorwyr trydan hawliau dirprwyedig ar gyfer darparu polion/gwifrau.

5.23 I’r perwyl hyn, ni ystyrir y byddai’r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau’r trigolion cyfagos ac felly ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisi PCYFF 2 o’r CDLl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.24 Mae’r bwriad yn golygu datblygu ystâd o dai ar gae gwyrdd. Bwriedir adeiladu mynedfa newydd i ffordd sirol gyfochrog ym mhen  deheuol y safle. Byddai'r gwaith yn cynnwys creu bwlch gyda llinellau gweledig yn y clawdd presennol. Mae’r ffordd yn gul ac yn culhau ger tro yn y ffordd i’r de a mynediad i’r pentref i’r gogledd o’r safle. Nodir hefyd y lleolir y fynedfa newydd tua 40 medr i dro tywyll (blind bend) yn y ffordd sirol.

5.25 Derbyniwyd gohebiaeth helaeth gan drigolion lleol yn codi pryderon sylweddol ynglŷn ag effaith y bwriad ar ddiogelwch ffyrdd ac o ganlyniad i hynny, fe dderbyniwyd gwybodaeth bellach ar ffurf Archwiliad Diogelwch Ffyrdd gan yr ymgeisydd sy’n cynnwys archwiliad o’r cynlluniau a gwybodaeth eraill. Mae’r adroddiad yn bwrw golwg ar oblygiadau diogelwch y bwriad ar y briffordd. Mae’n ystyried y problemau sy’n codi o’r bwriad a’r mesurau fydd ei angen ar gyfer eu datrys er mwyn gwella diogelwch y cynllun a lleihau digwyddiadau damweiniau.

Yn bennaf, mae’r adroddiad yn cyfeirio at 3 safle:

1) Diwedd palmant troed o’r ystâd i’r pentref.
Efallai na fyddai cerbydau'n teithio i'r de yn gweld y llwybr cerdded ac yn gyrru drosto neu daro'r llwybr cerdded yn enwedig yn y nos. Gall hyn arwain at y cerbyd ddod i gysylltiad â cherddwyr neu'r gwrthwyneb, gan arwain at wrthdrawiad sy'n achosi anaf i'r cerddwyr, yn ogystal efallai y bydd yn rhaid i'r cerbyd arafu yn sydyn a all arwain at wrthdrawiad math shwnt gyda'r cerbyd sydd yn dilyn o’r tu ôl.
Argymell - Byddai angen goleuo diwedd y palmant gyda marciau ffordd neu byst isel i rybuddio defnyddwyr y ffordd.

2) Llinellau gweledëdd o’r fynedfa bwriededig.
Mae’n debygol y byddai gwrych ochr deheuol i’r fynedfa bwriededig yn creu rhwystr i ddefnyddwyr y fynedfa ac yn amharu ar ddiogelwch ffyrdd.
Argymell - Sicrhau llinellau gweledëdd digonol.

3) Dim arwyddion ffyrdd. Byddai hynny yn arwain at ddefnyddwyr y ffordd yn gwneud symudiadau amhriodol.
Argymell arwyddion safonol.

5.26 Ymhellach i’r arolwg yma mae trafodaethau wedi bod rhwng yr ymgeisydd a’r Uned Drafnidiaeth ac mae cynllun yn dangos gwelliannau sy’n cynnwys lledu’r troad i’r de o’r safle (ar dir priffyrdd yn unig) ac mae sylwadau diweddaraf yr Uned Drafnidiaeth yn cadarnhau fod y bwriad erbyn hyn yn dderbyniol ar sail y gwelliannau sydd wedi eu cynnwys a materion megis manylion a materion technegol a fyddai yn destun cytundeb s278 ar wahân i’r caniatâd cynllunio. I’r perwyl hyn, tra cydnabyddir y gwrthwynebiadau sydd wedi eu derbyn ynglŷn â diogelwch ffyrdd a cherddwyr, parcio a chynnydd mewn traffic, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail yr asesiad uchod ac nad yw’n groes i ofynion polisïau PS4, TRA 2 a 4 o’r CDLl.

**Materion bioamrywiaeth**

5.27 Bwriedir datblygu cae amaethyddol ar gyfer creu ystâd o dai preswyl. Byddai'r gwaith yn cynnwys cloddio'r cae, adeiladu pyllau cadw dŵr, dymchwel cloddiau mewnol y cae ynghyd a thynnu gwrych a mieri ar hyd y clawdd terfyn ar gyfer gosod allan yr ystâd. Bwriedir hefyd ymgymryd â chynllun tirlunio yn cynnwys coridor ecoleg yng nghornel de dwyreiniol y safle. Bu i’r Adran ymgynghori gydag Uned Bioamrywiaeth y Cyngor a derbyniwyd sylwadau yn cadarnhau eu bod yn fodlon gyda’r bwriad yn ddarostyngedig i ddilyn y cynllun tirweddu a’r mesurau lliniaru a gwelliannau a gynhwysir yn yr arolygon a gyflwynir fel rhan o’r cais. O ystyried hyn, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau AMG 5 ac PS19 o’r CDLl ynghyd a phennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru.

**Materion Archeolegol**

5.28 Mae safle'r cais wedi bod dan asesiad archeolegol, gan gynnwys gwerthusiad mewnol ac arolwg daearegol a phrofion tyllu. Derbyniwyd sylwadau Heneb oedd yn datgan bod y gwaith pob cam wedi cael ei gyflawni yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol. Darganfu'r gwaith maes nad oedd archeoleg yn bresennol yn y rhan fwyaf o'r safle, ond cadarnhaodd bresenoldeb twmpath llosgedig o Oes Efydd Hwyr yn y maes i'r dwyrain. Argymhellir gosod amod archwiliad archeolegol pellach ac ystyrir fod hyn yn dderbyniol a bod y bwriad felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisi PS20 ac AT1 o'r CDLl.

**Materion llifogydd**

5.29 Bwriedir datblygu cae amaethyddol ar gyfer codi tai preswyl. Lleolir y safle yng nghefn gwlad agored gyda chwrs dwr yn rhedeg ar hyd terfyn dwyreiniol y safle. Yn ystod oes y cais, bu i'r Adran dderbyn gohebiaeth gan drigolion lleol yn datgan bod trafferthion dwr wyneb ar y safle a thiroedd gerllaw.

5.30 Bu i'r ymgeisydd gyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n yn datgan bod y safle o fewn parthau llifogydd 2 a 3 (Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach) fel diffinnir yn y NCT: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol 15 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025. Derbyniwyd sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn datgan, mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod safle y cais o fewn Parth Llifogydd 1, ac felly mewn perygl isel o lifogydd. Bu i Uned Dwr ac Amgylchedd y Cyngor gadarnhau eu bod wedi adolygu'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) ac yn fodlon â lefel y risg a ddangosir i'r datblygiad ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau, a hefyd fod ddim cynnydd yn y risg llifogydd i eiddo tu hwnt i safle'r datblygiad arfaethedig. Maent hefyd yn datgan bod angen diogelu'r cwrs dwr sy'n rhedeg ar hyd terfyn dwyreiniol y safle gyda choridor o 3medr (lleiafswm) o led o glan y cwrs dwr i'r datblygiad. Nodi bod y cynllun safle yn dangos hynny. Yn yr amgylchiadau yma, ystyrir bod y bwriad yn cyfarfod amcanion NCT 15 o ran llifogi dwr wyneb.

5.31 Yn unol â gofynion paragraff 7.6 o Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol, rhaid cyflwyno Strategaeth Ddraenio fel rhan o gais i amlinellu'r cynllun draenio ar gyfer dŵr wyneb o'r safle, oni bai fod cais ar wahân wedi ei wneud i'r corff cymeradwyo sef Uned Draenio Tir Cyngor Gwynedd. Yn yr achos yma, mae'r Uned Draenio Tir wedi cadarnhau fod cais wedi ei dderbyn ac mai dim ond ychydig o bwyntiau bach sydd angen mynd i'r afael â nhw cyn y byddent yn cyhoeddi tystysgrif cymeradwyo. I'r perwyl hyn nid ydynt yn gwrthwynebu'r cais ac ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda'r rhan berthnasol o'r NCT 15.

**Materion Addysg**

5.32 Ymgynghorwyd gyda'r Adran Addysg ynglŷn â'r bwriad a derbyniwyd cadarnhad fod capasiti ar gael yn Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Uwchradd Brynrefail. Yn benodol:

- Ysgol Llanrug: Capasiti 307 – Cyfanswm presennol – 235 (Medi 25) – Rhagamcanion niferoedd –Medi 2026 – 225; Medi 2027 – 220; Medi 2028 - 226.
- Ysgol Uwchradd Brynrefail: Capasiti 790 – Cyfanswm presennol – 761 (Medi 25) – Rhagamcanion niferoedd –Medi 2026- 740; Medi 2027 – 734; Medi 2028 - 717.

5.33 Mae'r nifer o blant amcangyfrif y byddai yn deillio o'r datblygiad i'w ddangos isod:

- Niferoedd plant oedran cynradd a ragwelir yn sgil y datblygiad: 17 x 0.4 = 6.8 = 7 disgybl cynradd ychwanegol
- Niferoedd dysgwyr oedran uwchradd a ragwelir yn sgil y datblygiad:

Ysgol Uwchradd blynyddoedd 7-11: 17 x 0.29 = 4.93 = 5 disgybl (blynyddoedd 7-11) ychwanegol
Ysgol Uwchradd blynyddoedd 12 a 13: 17 x 0.02 = 0.34 = 0 disgybl (blynyddoedd 12 a 13) ychwanegol

5.34 Ar sail y wybodaeth yma a chan fod capasiti presennol o fewn yr ysgolion lleol, ni fyddai'r bwriad yma yn golygu y byddai'r Ysgolion yn mynd dros eu capasiti ac felly nid yw'n berthnasol ystyried cyfraniad addysgol yn yr achos yma ar gyfer y disgyblion ychwanegol fyddai'n deillio o'r datblygiad arfaethedig.

**Llecynnau Agored a Chwarae**

5.35 Mae Polisi ISA 5 yn nodi y disgwylir i gynigion tai newydd ar gyfer 10 neu fwy o dai, mewn ardaloedd ble na all llecynnau agored presennol fodloni anghenion y datblygiad tai arfaethedig, roi darpariaeth addas o fannau agored. Mae paragraff 6.1.29 o'r CDLl yn dweud er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch a gofynion llecynnau agored mewn cynigion y dylid defnyddio safon meincnod Fields in Trust (FIT) o isafswm o 2.4 hectar fesul pob 1000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys 1.6ha o gyfleuster chwaraeon awyr agored (gyda 1.2ha yn gaeau chwarae ffurfiol) a 0.8ha o fan chwarae i blant (gyda 0.25ha yn fannau chwarae gyda chyfarpar). Mae'r amcangyfrif a wnaed yn dangos fod diffyg darpariaeth o lecynnau chwarae i blant gyda chyfarpar yn yr ardal yma.

5.36 Nid oes ddarpariaeth yn cael ei gynnig ar y safle ond fe geir eglurhad yn rhan 5.65-5.72 o'r Datganiad Cynllunio pam nad oes modd darparu ar y safle. Yn yr achos yma, mae cyfyngiadau'r safle sydd yn cynnwys llwybr cyhoeddus a chwrs dwr presennol, darparu corridor ecolegol a darparaiaeth SUDS yn golygu er bod yn ardaloedd agored anffurfiol ar y safle, nid oes posib darparu man chwarae agored a chyfarpar o fewn y safle.

5.37 Mae Polisi ISA 5 yn cydnabod na fyddai cynnwys darpariaeth ar safleoedd yn ymarferol ym mhob achos ond fod rhaid i'r ymgeisydd ddarparu cyfiawnhad cadarn i brofi nad yw'n bosib darparu llecynnau chwarae awyr agored fel rhan o ddatblygiad tai newydd. Mewn achosion felly, bydd yr Awdurdod yn ceisio trefnu rhwymedigaeth gynllunio o dan Adran 106 neu gytundeb unochrog er mwyn galluogi datblygwyr i wneud cyfraniad tuag at fannau chwarae addas oddi ar y safle yn lle darpariaeth uniongyrchol o fewn y safle datblygu.

5.38 Credir mewn achos fel yma ac fel sydd wedi ei gytuno eisoes gyda datblygiadau cyffelyb, bwriedir sicrhau cyfraniad ariannol trwy gytundeb 106 neu gytundeb unochrog a thrwy hynny, sicrhau fod y bwriad yn dderbyniol yn unol â gofynion perthnasol polisi ISA 5. I'r perwyl hyn, ar sail yr angen sydd wedi ei gyfrifo isod, bydd angen cyfanswm cyfraniad o £10,350.86,

Darpariaeth mannau agored o'r datblygiad newydd:

- Chwaraeon Awyr Agored = 596.28m2 x £11.69 = £6970.51
- Llecynnau Chwarae gyda Chyfarpar i Blant = 88.98m2 x £37.99 = £3380.35

**Materion Iaith**

5.39 Mae maen prawf (2) o Bolisi PS 1 yn datgan bydd angen Asesiad Effaith Iaith Gymraeg gyda datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr. Mae'r ffaith fod hwn yn safle eithrio y tu allan i'r ffin datblygu yn golygu ei fod yn safle ar hap annisgwyl. Fel

noder yn y CCA ‘Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy’, mae 5 neu ragor o unedau tai newydd yn Llanrug yn cael ei ystyried yn ddatblygiad tai ar ‘raddfa fawr’.

5.40 Gwelir fod Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi ei gyflwyno gyda’r cais. Yn eu hymateb i’r ymgynghoriad, cadarnhaodd yr Uned Iaith fod yr asesiad ieithyddol yn gynhwysfawr ac wedi dadansoddi hanes datblygiadau ardaloedd cyfagos, yn ogystal â dadansoddiad ieithyddol o’r ardal. Mae’n amlinellu’r galw yn lleol, gan gynnwys ystadegau Tîm Opsiynau Tai a Thai Teg ar gyfer ardal y cais a chymunedau cyfagos. Mae’r wybodaeth yn yr asesiad yn cefnogi’r effaith buddiol a gynigir. Nodir y byddai amod ar gyfer darparu enw Cymraeg i’r stad yn cael ei roi ar unrhyw benderfyniad. O ganlyniad, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion perthnasol polisi PS 1.

**Yr ymateb i’r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.41 Cydnabyddir fod gwrthwynebiadau wedi eu derbyn i’r bwriad yma ac fe ystyrir fod yr holl faterion cynllunio perthnasol wedi derbyn sylw priodol fel rhan o’r asesiad uchod. Gwneir y penderfyniad ar sail ystyriaeth lawn o'r holl faterion cynllunio perthnasol a'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ac ni wnaed cam ac unrhyw un wrth ystyried y cais hwn.

**6. Casgliadau:**

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal â'r holl sylwadau a dderbyniwyd, credir fod y bwriad yma yn dderbyniol gan ei fod yn bodloni gofynion y polisïau a’r canllawiau perthnasol fel y nodir uchod.


**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu gydag amodau ac yn ddarostynedig i gytundeb 106 neu gytundeb unochrog ar gyfer sicrhau cyfraniad llecynnau agored

1. Amser
2. Unol a’r cynlluniau
3. Deunyddiau
4. Amod tai fforddiadwy
5. Amodau priffyrdd
6. Amodau bioamrywiaeth
7. Amod tirlunio
9. Tynnu hawliau dirprwyedig a ganiateir yn ymwneud ag ymestyn a defnydd
10. Materion draenio
11. Cynllun Rheoli Adeiladu
12. Gwarchod llwybr cyhoeddus
13. Amodau Archeolegol

Nodiadau:
Priffyrdd
Trwydded Ystlumod
Cyfoeth Naturiol Cymru
Dwr Cymru
Llwybrau

SUDS
Datblygiad Mawr
Uned Draenio Tir




# CYNLLUN LLEOLIAD - LOCATION PLAN

SCALE: 1 : 1250

| PRINTED: | | 09/09/2025 09:17:48 | | |
|---|---|---|---|---|
| REV: | DESCRIPTION: | DATE: | BY: | CHK: |
| P1 | ISSUED FOR WG TECHNICAL APPROVAL | 07/02/2025 | ME | DP |
| P2 | BOUNDARY UPDATED | 13/02/2025 | ME | DP |
| P3 | ISSUED FOR PAC | 29/05/2025 | ME | DP |
| P4 | BOUNDARY UPDATES | 09/09/2025 | ME | DP |

Cynllunio
Derbyn 11.09.25

N

0 12.5 25 37.5 50 m

1:1250 @ A3

saer architects

www.saer.wales | 01492 472478 | studio@saer.wales

THIS DRAWING IS COPYRIGHT OF SAER ARCHITECTS LIMITED. CHECK ALL DIMENSIONS ON SITE. DISCREPANCIES TO BE NOTIFIED TO ARCHITECT. ELEMENTS OF STRUCTURE SHOWN ARE INDICATIVE AND FOR GUIDANCE. FINAL DESIGN TO STRUCTURAL ENGINEERS DETAILS AND SPECIFICATION.

PROJECT:
FFORDD GLANFFYNNON, LLANRUG

CLIENT:
ATTICUS LAND AND DEVELOPMENT

DRAWING TITLE:
CYNLLUN LLEOLIAD - LOCATION PLAN

| PURPOSE OF ISSUE: | STATUS: |
|---|---|
| PLANNING | S3 |
| DRAWING No: | PROJECT No: |
| FGL-SAL-A1-ZZ-DR-A-0001 | P1212 |
| SCALE: | REVISION: |
| 1 : 1250@A3 | P4 |



Cynllunio
Derbyn 11.09.25

PROJECT


FFORDD GLANFFYNNON, LLANRUG
ATTICUS LAND AND DEVELOPMENT

DRAWING TITLE

CYNLLUN SAFLE PRESENNOL - EXISTING SITE PLAN

| | |
|---|---|
| DRAWING STATUS: PLANNING | STATUS: S3 |
| DRAWING No: FGL-SAL-A1-ZZ-DR-A-0002 | PROJECT No: P1212 |
| SCALE: 1 : 200@A1 | REVISION: P3 |


AIL-LEOLIAD WEIREN PWER ARFAETHEDIG - LLEOLIAD I'W GADARNHAU
PROPOSED CABLE DIVERSION - EXACT LOCATION TBC
BASN LLEIHAU DWR
DETENTION BASIN
Cynllunio
PLOT 8
PLOT 7
PLOT 6
PLOT 5
PLOT 4
PLOT 3
PLOT 2
PLOT 1
PLOT 9
PLOT 10
PLOT 11
PLOT 12
PLOT 13
PLOT 14
PLOT 15
PLOT 16
PLOT 17
COEDEN CATEGORI A CATEGORY A TREE
WEIREN PWER PRESENNOL UWCHBEN I'W DYNNU
EXISTING OVERHEAD CABLES TO BE REMOVED
WAL GYNHALIOL
RETAINING WALL
(3m EASEMENT)
CORIDOR ECOLEG
ECOLOGY CORRIDOR
N
BIODIVERSITY KEY
BAT BOXES 5
BIRD BOXES 3
SWIFT BRICK/BOXES 3
REPTILE REFUGIA 3
HEDGEHOG HOLE
MATHAU O DAI - HOUSE TYPES
MATH / TYPE NIFER / AMOUNT
BUNGALOW 3P2B 4
Tŷ 4P2B HOUSE 5
Tŷ 5P3B HOUSE 6
Tŷ 8P5B HOUSE 1
BUNGALOW 6P4B 1
Cyfanswm / Total 17
DARPARIAETH MAN AGORED CYHOEDDUS YN SEILIEDIG AR SYLWADAU CYN-GEISIAD CYNLLUNIO (SAFON FIT): 24000M² FESUL 1000 O BOBL
24M² (ARWYDDFA PP) X 76 (POBL Y SAFLE) = 1920M²
GOFYNIAD: 1824M²
MAN AGORED CYHOEDDUS A GYRAEDDODD: 996.5M²
PUBLIC OPEN SPACE PROVISION BASED ON PRE PLANNING APPLICATION COMMENTS (FIT BENCHMARK) : 24000m² PER 1000 POPULATION
24m² (AREA PP) x 76 (SITE POPULATION ) = 1920m²
REQUIREMENT: 1824m²
PUBLIC OPEN SPACE ACHIEVED: 996.5m²
saer architects
FFORDD GLANFFYNNON, LLANRUG
ATTICUS LAND AND DEVELOPMENT
CYNLLUN SAFLE ARFAETHEDIG - PROPOSED SITE PLAN
PLANNING
S3
FGL-SAL-A1-ZZ-DR-A-0003
P1212
As indicated@A1
P12




© CADARN CONSULTING ENGINEERS LTD 2025

## NOTES

1. DO NOT SCALE FROM THIS DRAWING.
2. ALL LEVELS IN METRES UNLESS NOTED OTHERWISE ON DRAWING.
3. ALL DIMENSIONS AND LEVELS TO BE CHECKED ON SITE PRIOR TO UNDERTAKING ANY WORKS, ORDERING MATERIALS OR FABRICATING ANY COMPONENTS.
4. THIS DRAWING IS TO BE READ IN CONJUNCTION WITH ALL OTHER RELEVANT ENGINEER'S AND ARCHITECT'S DRAWINGS AND RELEVANT SPECIFICATION CLAUSES.
5. REPRODUCED FROM THE ORDNANCE SURVEY'S MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HER MAJESTY'S STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT. LICENCE NO. AC0000855691

## KEY

PROJECT TITLE:

FFORDD GLANFFYNNON, LLANRUG

DRAWING TITLE:

PROPOSED OFFSITE STREET WORKS

DRAWING No:

**15824L-CCE-XX-XX-DR-C-0013**

| ORIGINATOR | DATE | SCALE @ A1 | SUITABILITY | REVISION |
|---|---|---|---|---|
| LG | 16.10.2024 | 1:200 | D2 | P03 |

CADARN
CONSULTING ENGINEERS

Address: CADARN Consulting Engineers Ltd,
Suite B,
Anglesey Business Centre,
Bryn Cefni,
Llangefni,
LL77 7XA
Tel: 01407 730912
E-mail: Admin@cadarnconsulting.co.uk



**AWYRLUN 3D AERIAL**
SCALE:



**AWYRLUN 3D AERIAL**
SCALE:

| PRINTED: | | 21/08/2025 15:36:38 | | |
|---|---|---|---|---|
| REV. | DESCRIPTION: | DATE | BY: | CHK: |
| P1 | ISSUED FOR COMMENTS | 15/01/2025 | ME | DP |
| P2 | ISSUED FOR WG TECHNICAL APPROVAL | 07/02/2025 | ME | DP |
| P3 | ISSUED FOR PAC | 29/05/2025 | ME | DP |
| P4 | UPDATES FOLLOWING CLIENT COMMENTS | 03/06/2025 | ME | DP |
| P5 | UPDATES FOLLOWING CLIENT/CONTRACTOR COMMENTS | 22/08/2025 | ME | DP |

Cynllunio
Derbyn 11.09.25



**MYNEDFA SAFLE - SITE ENTRANCE**
SCALE:



**FFORDD GLANFFYNNON**
SCALE:



**GOLYGFA'R STRYD - STREET SCENE**
SCALE:



**AWYRLUN 3D AERIAL**
SCALE:

saer architects
www.saer.wales | 01492 472478 | studio@saer.wales

THIS DRAWING IS COPYRIGHT OF SAER ARCHITECTS LIMITED. CHECK ALL DIMENSIONS ON SITE. DISCREPANCIES TO BE NOTIFIED TO ARCHITECT. ELEMENTS OF STRUCTURE SHOWN ARE INDICATIVE AND FOR GUIDANCE. FINAL DESIGN TO STRUCTURAL ENGINEERS DETAILS AND SPECIFICATION.


PROJECT:
FFORDD GLANFFYNNON, LLANRUG

CLIENT:
ATTICUS LAND AND DEVELOPMENT


DRAWING TITLE:
3D ARFAETHEDIG - PROPOSED 3D

| DRAWING STATUS: | STATUS: |
|---|---|
| PLANNING | S3 |
| DRAWING No: | PROJECT No: |
| FGL-SAL-A1-ZZ-DR-A-0006 | P1212 |
| SCALE: | REVISION: |
| @A2 | P5 |


## ELEVATIONS



### EDRYCHIAD BLAEN
### FRONT ELEVATION
SCALE: 1 : 100




### EDRYCHIAD CEFN
### REAR ELEVATION
SCALE: 1 : 100




### EDRYCHIAD OCHR
### SIDE ELEVATION
SCALE: 1 : 100

Cynllunio
Derbyn 11.09.25


## PLANS




### LLAWR GWAELOD
### GROUND FLOOR
SCALE: 1 : 50




### LLAWR CYNTAF
### FIRST FLOOR
SCALE: 1 : 50

